# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Committee Room 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Ionawr 2021

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCymunedau@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (13.00 - 13.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 - sesiwn dystiolaeth 2

(13.30 - 15.30) (Tudalennau 1 - 57)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Judith Cole, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cyllid a Gweithlu Llywodraeth

Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru

Ian Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cartrefi a Lleoedd, Llywodraeth Cymru

Debra Carter, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

## Egwyl (15.30 - 15.45)

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 - sesiwn dystiolaeth 3

(15.45 - 16.30) (Tudalennau 58 - 69)

Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Alyson Francis, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gymunedau, Llywodraeth Cymru

Sian Gill, Pennaeth Adrodd Ariannol, Llywodraeth Cymru

## 4 Papurau i'w nodi

(Tudalen 70)

**4.1 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip - strydoedd diogelach a chydraddoldeb i bobl anabl**

(Tudalennau 71 - 73)

**4.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol - Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru): Cyfnod 3**

(Tudalennau 74 - 75)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 28 Ionawr

## 6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 - trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3

(16.30 - 17.00)

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**Dyddiad: 21 Ionawr 2021**

**Amser: 13.30 – 15.30 Y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

**15.45 – 16.30 Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**

**Teitl: Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2021-22**

## Cyflwyniad

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys cynlluniau gwario ar gyfer 2021-22. Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor ar gynigion ar gyfer cyllidebau rhaglenni yn y dyfodol mewn cysylltiad â Llywodraeth Leol, Cymunedau, Cydraddoldeb, Tai ac Adfywio, fel yr amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft a osodwyd ar 21 Rhagfyr 2020.

Mae Atodiad A yn darparu dadansoddiad o ffigurau perthnasol y Gyllideb Ddrafft ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Tai a Llywodraeth Leol, a darnau o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn cysylltiad â phortffolio'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb. Mae'r ffigurau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y tabl isod.

## Tablau Ariannol

Yr elfennau penodol ar gyfer y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yw Llywodraeth Leol, Cydraddoldeb, Tai, Adfywio a Diogelwch Cymunedol. Mae cyllidebau'r elfennau hynny wedi'u crynhoi yn y tablau isod.

| | 2020-21 Cyllideb Derfynol £'000 | 2021-22 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 3,937,550 | 4,211,257 | 273,707 | 6.9% |
| Nad yw'n arian parod | 240 | 381 | 141 | 58.7% |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **3,937,790** | **4,211,638** | **273,848** | 6.9% |
| Cyfalaf | 570,411 | 625,691 | 55,280 | 9.6% |
| Trafodiadau Ariannol | 151,505 | 91,786 | -59,719 | -39.4% |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **721,916** | **717,477** | **-4,439** | **-0.6%** |

## Trosolwg o'r Gyllideb

Dyma gyllideb derfynol y Pumed Cynulliad. Paratowyd y gyllideb yn dilyn Adolygiad o Wariant blwyddyn Llywodraeth y DU ar 25 Tachwedd 2020.

Er mai dim ond am flwyddyn yn unig y gellir pennu cynlluniau refeniw a chyfalaf, mae'r Gyllideb Ddrafft yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus y Llywodraeth hon i warchod gwasanaethau cyhoeddus a swyddi; darparu'r sefydlogrwydd ariannol sydd ei hangen i fuddsoddi yng Nghymru i feithrin twf economaidd ac i gefnogi ein blaenoriaethau. Mae'r pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus ac, yn fwy penodol, ar lefel y cyllid sydd ar gael yn golygu y byddwn ni a'n partneriaid yn wynebu heriau, ac yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd.

Mae'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2021-22 wedi canolbwyntio ar y themâu diogelu, adeiladu, a newid. Wrth ddyrannu refeniw rydym wedi canolbwyntio ar fesurau i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Mae'r buddsoddiadau cyfalaf wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, cefnogi bioamrywiaeth, tai, a chanol trefi. Roedd proses y gyllideb yn gyfle i fwrw ymlaen ag ymdrechion cyfunol y Cabinet i wneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau er mwyn gwella canlyniadau yn y meysydd hyn, ac mae'r dystiolaeth ar flaenoriaethau yn y meysydd hyn wedi dylanwadu ar y gwariant ar lywodraeth leol, tai a chydraddoldeb.

Mae'r cynigion hyn yn y gyllideb hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i warchod a blaenoriaethu buddsoddiadau sy'n cefnogi mesurau ataliol i'r graddau mwyaf posibl. Wrth wneud penderfyniadau ar wariant rydym nid yn unig wedi ystyried sut mae ateb y galw presennol am wasanaethau, ond hefyd wedi canolbwyntio ar gefnogi ymyriadau sy'n gallu atal problemau rhag codi yn y dyfodol. Mae'r dull ataliol hwn yn rhan bwysig o'n gwaith cynllunio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

## Llywodraeth Leol

Pennwyd llinell sylfaen cyllidebau refeniw yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol yn ôl Cyllideb Derfynol 2020-21. Cafodd rhai addasiadau eu gwneud i'n sefyllfa refeniw o ran Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf (gostyngiad o £10m) a Chyfathrebiadau Gwasanaethau Tân (£2.010m). Roedd y symiau hyn yn ostyngiadau disgwyliedig yn unol â chwblhad y ffrydiau cyllido hyn.

Cafodd y MEG Tai a Llywodraeth Leol ddyraniadau penodol i ddarparu gwell setliad i lywodraeth leol, yn ogystal â dyraniad o £23.27m i Gronfa Galedi Llywodraeth Leol i barhau â'r ddarpariaeth yn lle prydau ysgol am ddim i bob dysgwr cymwys yn ystod gwyliau'r ysgol yn ystod 2021-22. Hefyd cafodd y MEG gynnydd o £40m i'r Grant Cymorth Tai a dyraniad o £4m o gronfa wrth gefn Covid-19 i'r Grant Atal Digartrefedd i barhau â'r cynnydd yn y maes hwn hyd yma.

Yn yr Adolygiad o Wariant, cafodd Llywodraeth Cymru symiau canlyniadol gwerth £766m yn 2021-22 o ganlyniad i gyhoeddiadau gwariant mewn cysylltiad â Covid-19 yn Lloegr mewn meysydd datganoledig. Caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio fel rhan o'n hymdrechion parhaus i ymateb i'r pandemig ac i liniaru ei effaith. O ganlyniad i'r ansicrwydd yn y maes hwn ac i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau ar ddyrannu'r cyllid hwn yn ateb heriau esblygol y pandemig, dim ond nifer fach o ddyraniadau sydd wedi cael eu gwneud ar gyfer y cyllid hwn, a hynny i wasanaethau penodol sy'n

ymateb i effeithiau'r pandemig. Wrth inni gael gwell dealltwriaeth o effaith misoedd y gaeaf ar ledaeniad y clefyd, byddwn yn gwneud rhagor o ddyraniadau yn ôl yr angen.

Pennwyd llinell sylfaen cyllidebau cyfalaf cyffredinol yn ôl Cyllideb Derfynol 2020-21 hefyd ac ni chafodd unrhyw addasiadau eu gwneud i'r llinell sylfaen hon yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol. Gwnaed dyraniadau cyfalaf penodol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cynhwysiant Ariannol ac i'r portffolio Tai ac Adfywio.

**Setliad Llywodraeth Leol**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae staff awdurdodau lleol wedi gweithio'n hynod o galed i gynnal gwasanaethau yn ystod y pandemig, gan weithio'n hyblyg i fodloni anghenion defnyddwyr gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol sylweddol i awdurdodau lleol dros y naw mis diwethaf i fynd i'r afael â'r costau ychwanegol a'r incwm sydd wedi'i golli o ganlyniad i'r ymateb i Covid-19. Roedd dros £500m ar gael drwy'r Gronfa Galedi Llywodraeth Leol. Roeddem wedi cefnogi awdurdodau gyda'u llif arian parod ym mis Ebrill hefyd, drwy ailbroffilio'r setliad i roi taliad cynnar gwerth £526m iddynt. Rydym yn rhag-weld y bydd angen parhau i roi cymorth i awdurdodau lleol gyda'r costau ychwanegol tebygol a'r incwm maent yn debygol o'i golli yn 2021-22 wrth ymateb i'r pandemig. Mae **dyraniad o £23.3m** wedi cael ei wneud i'r Gronfa Galedi Llywodraeth Leol yn 2021-22 i barhau i ddarparu prydau ysgol am ddim i ddysgwyr cymwys yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'n ddoeth cadw cymaint o hyblygrwydd ag sy'n bosibl nawr ac rydym yn bwriadu dyrannu'r cyllid hwn ymhellach yn y Gyllideb Derfynol, ar ôl inni gael gwell dealltwriaeth o fisoedd y gaeaf ar ledaeniad y clefyd. Yn benodol, byddwn yn ystyried pa gyllid ychwanegol sydd ei angen i gefnogi'r GIG a llywodraeth leol wrth iddynt chwarae rhan flaenllaw yn ein hymateb i'r pandemig.

Roeddem yn gallu cyllidebu setliad da i Lywodraeth Leol yn 2020-21 – cafodd pob awdurdod cynnydd o 3% o leiaf. Yn y gyllideb hon, ein blaenoriaethau unwaith eto oedd diogelu gwasanaethau lleol ac iechyd. Wrth wneud penderfyniadau ar y gyllideb yn ei chyfanrwydd, rydym wedi gallu sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael setliad da arall yn gyffredinol, er gwaethaf yr effaith negyddol ar y gronfa ardrethi annomestig a chyfraddau casglu is yn ystod y pandemig. Rydym wedi rhoi **cynnydd cyffredinol o 3.8%** i awdurdodau lleol ar sail tebyg am debyg. Bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio'r cyllid craidd maent yn ei gael drwy'r setliad, fel y maent yn ei wneud bob blwyddyn, i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, boed hynny drwy ddarparu gofal cymdeithasol, cymorth digartrefedd neu brydau ysgol am ddim, i enwi dim ond rhai meysydd. Wrth gwrs byddem yn hoffi rhoi ffigurau cynllunio tymor hwy i awdurdodau er mwyn iddynt allu seilio eu cynlluniau ariannol arnynt, ond ni allwn wneud hyn heb adolygiad cynhwysfawr o wariant tymor hwy gan Lywodraeth y DU.

Mae'r setliad llywodraeth leol yn cynnwys y Grant Cynnal Refeniw a chyllid gan ardrethi annomestig. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol wedi cynyddu £210.4m o ganlyniad i gyllid cynyddol o £211m, trosglwyddiad i mewn o £1.1m a throsglwyddiad allan i setliad yr heddlu o £1.7m. Mae'r gyllideb ddisgwyliedig ar gyfer ardrethi annomestig wedi gostwng £35m. Effaith gyffredinol hyn yw darparu cynnydd arian parod o £176m i'r setliad. Gan ystyried y £4m a ddarparwyd yn y flwyddyn ariannol hon ar gyfer cyflog athrawon, o gymharu ar sail tebyg am debyg mae hyn yn gynnydd i'r setliad o £172m.

Nid yw'r cyllid hwn i Lywodraeth Leol wedi'i neilltuo ond rydym yn rhag-weld mai defnydd pennaf y cyllid ychwanegol hwn fydd cefnogi ysgolion a gofal cymdeithasol – dau faes craidd. Bydd awdurdodau'n gallu parhau i ganolbwyntio, a hynny i raddau mwy, ar gyflenwi pobl ifanc â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i wireddu eu potensial ac ar helpu pobl i fyw'n annibynnol neu i fodloni eu hanghenion gofal mewn lleoliad preswyl, ac atal yr angen am driniaeth yn yr ysbyty. Yn gyffredinol, mae hyn yn creu effaith gadarnhaol ar blant hyd 16 oed drwy ddarparu addysg. Mae buddsoddi mewn gofal cymdeithasol yn elwa amrywiaeth o bobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys anabledd – namau corfforol a meddyliol – ac oedran, gan fod y gyfran uchaf o bobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol dros 65 oed.

Mae'r setliad yn darparu'r cyllid craidd ar gyfer gwasanaethau ac yn gosod terfynau ar hyd y continwwm ataliol i ymatebol yn destun anodd ac mae wedi bod erioed. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynnal eu hasesiad eu hunain o effaith penderfyniadau fel rhan o'u gwaith penderfynu ar gyllidebau lleol. Mae meysydd allweddol gwasanaethau llywodraeth leol fel rhaglenni i deuluoedd, addysg, a helpu pobl i fyw'n annibynnol, yn anelu at atal anawsterau a phroblemau rhag codi ym mywyd pobl yn y dyfodol. Fel rhan o'r ymateb i'r pandemig, mae awdurdodau lleol wedi defnyddio dulliau cyfunol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, gan ddefnyddio ymyriadau digidol a rhai wyneb yn wyneb, gan eu galluogi i barhau i gyflenwi gwasanaethau yn ystod y cyfnod heriol hwn, ac i ddefnyddio amser staff a thrigolion yn fwy effeithlon.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol osod a chyhoeddi amcanion llesiant i ddangos sut byddant yn gweithio i gyflawni pob un o saith nod llesiant Cymru. Mae'r gwasanaethau hanfodol a gyflenwir drwy gymorth llywodraeth leol yn cefnogi iechyd a llesiant ehangach pobl Cymru, yn enwedig nawr fod y pandemig yn cael effaith eang ar fywyd cynifer o bobl. Nodwyd y blaenoriaethau o ran iechyd a llywodraeth leol yn y gyllideb ddrafft ac mae darparu cynnydd tebyg am debyg o 3.8% yn y setliad yn adlewyrchu hyn. Gwyddwn fod gan awdurdodau lleol y wybodaeth leol i gyflenwi'r rhan fwyaf o wasanaethau yn y ffordd orau yn eu hardal leol drwy gyllid heb ei neilltuo. Mae'r ffyrdd o weithio sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn hanfodol wrth ymateb i'r pandemig.

Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at yr angen i gymunedau ddod ynghyd a chynnwys amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau. Mae wedi sbarduno ffyrdd gwahanol o weithio ac achosi i wasanaethau gael eu cyflenwi i fodloni anghenion defnyddwyr. Bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r hyn maent wedi'i ddysgu a'i addasu yn ôl yr angen wrth inni symud drwy'r flwyddyn ariannol nesaf ac i gynlluniau tymor hwy. Efallai mai bach yw rhai o'r newidiadau hyn ond maent yn dangos beth sy'n bosibl a gan fod technolegau digidol yn datblygu'n barhaus, maent yn fan cychwyn ar gyfer arloesi yn y dyfodol. Dyma rai o'r meysydd allweddol lle mae newidiadau wedi cael eu gwneud ar draws awdurdodau:

- Mae cynghorau wedi manteisio ar y cyfle i weithio gydag unigolion digartref ar achosion sylfaenol eu sefyllfa, yn benodol darparu cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.
- Ym maes gofal cymdeithasol, mae technoleg rithiol wedi cynyddu mynediad nifer o drigolion at weithwyr cymdeithasol a ffrindiau y tu allan i'w rhwydwaith uniongyrchol. Mae llawer mwy o weithio mewn partneriaeth wedi bod yn digwydd ac mae technoleg ddigidol yn golygu bod ymatebion yn gyflymach o lawer.
- Yn ddigidol, mae paneli dysgwyr agored i niwed wedi cael eu sefydlu, gan weithio ar draws timau anableddau dysgu, pyrth teuluoedd, partneriaid yn y trydydd sector ac iechyd i drafod pryderon difrifol ynglŷn â diogelwch a lles.

- Mae newidiadau i ganol dinasoedd a threfi er mwyn hwyluso cadw pellter cymdeithasol wedi bod o fudd i ansawdd aer a'r amgylchedd hefyd.
- Mae systemau archebu ar-lein ar gyfer ailgylchu wedi lleihau ciwiau ac wedi gwella'r cyfathrebu â defnyddwyr. Roedd un cyngor wedi adrodd bod ei ganolfannau ailgylchu yn rhedeg ar gyfradd ailgylchu o 90%, i fyny o gyfartaledd o 75%.
- Gwasanaethau llyfrgell ar-lein, a darpariaeth clicio a chasglu

Roedd gan nifer o awdurdodau lleol gynlluniau trawsnewid ar waith yn barod; rhai wedi'u datblygu mwy nag eraill. Mae awdurdodau wedi adrodd bod nifer o agweddau ar gynlluniau trawsnewid, yn enwedig mewn cysylltiad â thrawsnewid digidol, wedi cael eu cyflymu o ganlyniad i'r pandemig a'r angen i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol.

**<u>Cyllid y tu allan i'r setliad</u>**

Ochr yn ochr â'r setliad, mae elfennau o gyllid penodol i helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella llesiant torfol eu hardaloedd. Mae Darpariaeth ar gyfer Trawsnewid a Deddfwriaeth yn cefnogi ein gwaith i gryfhau llywodraeth leol yn wyneb heriau ariannol parhaus a'u galluogi i ddarparu gwasanaethau hanfodol, sy'n cefnogi llesiant cymdeithasol ac economaidd pawb. Rydym yn darparu cyllid ar gyfer rhaglen wella a arweinir gan y sector ar gyfer llywodraeth leol er mwyn galluogi dull mwy rhagweithiol o gydlynu a chefnogi gwelliant parhaus ar draws pob awdurdod lleol – y bwriad yw mynd i'r afael â phroblemau mewn cynghorau yn gynnar ac atal problemau rhag dwysáu neu gyrraedd pwynt lle mae angen ymyriad arnynt. Rydym hefyd yn darparu cymorth ar gyfer sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig, a fydd yn galluogi dull cyson ar gyfer cydweithio rhanbarthol. Bydd y pwyllgorau hyn yn helpu i gysoni'r penderfyniadau strategol allweddol sy'n sail i ddatblygiad cynaliadwy a thrawsnewid rhanbarthau yn eu cyfanrwydd.

Hefyd, darperir cymorth i gefnogi'r amrywiaeth o ddiwygiadau i lywodraeth leol a gyflwynir drwy'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Un o themâu craidd y Bil yw hyrwyddo amrywiaeth a democratiaeth leol, gan gynnwys rhoi'r bleidlais i unigolion 16-17 oed ac i ddinasyddion o dramor sy'n byw yng Nghymru'n gyfreithlon, gan ganiatáu i grwpiau ychwanegol o gymdeithas ddylanwadu ar benderfyniadau.

Yn y flwyddyn ariannol nesaf, byddwn yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer cymorth statudol a, lle bo angen, ymyriadau pan fo awdurdodau lleol yn wynebu heriau sylweddol a bod angen cymorth arnynt i wella perfformiad gwasanaethau a/neu gapasiti corfforaethol; mae hyn yn cynnwys pecyn cymorth sydd ar waith ym Merthyr ar hyn o bryd. Byddwn hefyd yn darparu cyllid i gefnogi trawsnewid digidol mewn llywodraeth leol, gan gynnwys cyllid i Brif Swyddog Digidol Llywodraeth Leol ddatblygu a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn ddigidol, a gwaith trawsnewid.

**<u>Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf</u>**

Cafodd cyllid ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei ddarparu fel refeniw am bum mlynedd gyntaf y fargen 20 mlynedd (o 2016-17 i 2020-21). Bydd gweddill y cymorth cyllid uniongyrchol gan y llywodraeth ar gyfer y fargen yn cael ei ddarparu fel cyfalaf yn unol â'r cytundeb rhwng y rhanbarth, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn amodol ar y rhanbarth yn cwblhau'r Adolygiadau Gateway gofynnol yn llwyddiannus. Bydd cyllid ar gyfer Bargen Ddinesig Dinas Ranbarth Bae Abertawe a Bargen Twf y Gogledd yn cael ei ddarparu fel cyfalaf hefyd. Bydd y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y bargeinion y cytunwyd arnynt yn cael ei sicrhau drwy

gyllidebau atodol pan fydd trefniadau ariannol y bargeinion yn cael eu cwblhau'n derfynol.

## Y Cyfnod Pontio o'r UE

Roedd datganiad y Gweinidog Cyllid ar gyllideb Cymru yn nodi'r risgiau a'r materion ariannol ynghylch y cyfnod pontio o'r UE, gan gynnwys ein disgwyliad na ddylai Cymru fod ar ei cholled yn ariannol. Yn 2018, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer rhaglenni cymorth a strwythurau cryf a chadarnhaol i helpu Awdurdodau Lleol yng Nghymru gydweithio i baratoi; ac i roi sicrwydd ynghylch galluogrwydd, cydnerthedd a pharodrwydd llywodraeth leol.

Un o'r prif agweddau ar y strwythur hwn oedd sefydlu Panel Cynghori Paratoadau'r UE ar gyfer Llywodraeth Leol – grŵp strategol yn cynnwys Prif Weithredwyr cynrychioladol o awdurdodau lleol rhanbarthol, arweinwyr gwasanaethau, CLlLC a Llywodraeth Cymru. Mae'r Panel yn goruchwylio Rhaglen Pontio o'r UE CLlLC https://www.wlga.cymru/brexit-transition-support-programme-for-welsh-local-authorities a 'Cydlynwyr Brexit' ar lefel Llywodraeth Leol – dwy raglen sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r dull gweithredu hwn, gan gydweithio ag awdurdodau lleol ac integreiddio'r ymateb rhwng meysydd gwasanaeth, wedi ei gwneud hi'n bosibl llunio cynlluniau a chynnal asesiadau risg mwy cadarn.

Mae'r cymorth hwn wedi helpu Awdurdodau Lleol i fod mor barod â phosibl (ac ystyried yr ansicrwydd) ac mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi lefelau a chysondeb uwch o ran parodrwydd Awdurdodau Lleol ledled Cymru ers mis Ionawr 2019, ac wedi tynnu sylw at fuddion a llwyddiant y model cydweithio hwn.

Mae'r dulliau gweithredu hyn wedi parhau gydol 2020 i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio ac er bu rhaid ailgyfeirio adnoddau sylweddol at yr ymateb i Covid-19 a'r gwaith adfer, mae'r ffocws ar bontio o'r UE wedi parhau.

## Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol

Yn ogystal â grantiau penodol ar gyfer buddsoddiad sy'n cefnogi adferiad yr economi leol, mae'r Gronfa Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol yn ffynhonnell cyllid allweddol i awdurdodau lleol ar gyfer buddsoddi yn yr amgylchedd lleol a gwasanaethau lleol. Roedd cyllideb derfynol 2020-21 yn cynnwys blwyddyn olaf nifer o ddyraniadau cyfnod penodol a oedd yn dod i ben yn 2021. Wrth osod ein cyllideb cyfalaf ar gyfer 2021-22, rydym wedi penderfynu parhau â'r cyllid hwn, gwerth £55m, yn 2021-22. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o **£197.8m** o gyllid cyfalaf ar gael i awdurdodau lleol yn 2021-22. Bwriedir bod **£35m** o hwn yn cael ei ddefnyddio i barhau i helpu Llywodraeth Leol i gyflawni ein blaenoriaethau ar y cyd, gan gynnwys datgarboneiddio ac adferiad economaidd sy'n seiliedig ar werthoedd ar ôl Covid-19.

Mae Llywodraeth Leol yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith datgarboneiddio – nid yn unig wrth gyflenwi gwasanaethau ac ystadau Cynghorau yn uniongyrchol, ond hefyd drwy ddarparu arweinyddiaeth leol ledled Cymru a hyrwyddo atebion cynaliadwy uchelgeisiol, a newidiadau mewn ymddygiad. Bydd cydweithio i rannu arbenigedd, tystiolaeth ac atebion yn helpu i sicrhau buddsoddiadau, strategaethau a pholisïau mor effeithiol â phosibl ac yn helpu i ddatblygu'r 'map llwybr' cyflymaf a mwyaf cynaliadwy tuag at gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol, a'n huchelgais o ran sero net erbyn 2030.

Yn ystod yr haf hwn, cytunodd Gweinidogion ac Arweinwyr Llywodraeth Leol ar Banel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol, a fyddai'n cynnwys prif weithredwyr awdurdodau lleol, CLlLC, sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, Llywodraeth Cymru ac ymgynghorwyr perthnasol, gan gynnwys arbenigwyr ar ddatgarboneiddio a newid ymddygiad. Bydd yn sbarduno cyfraniad llywodraeth leol i'r dull 'Tîm Cymru' o ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel nesaf i Gymru, a'i chyfraniad i COP26 fis Tachwedd.

**Ardrethi Annomestig**

Mae trethiant lleol yn rhan hollbwysig o'r system ar gyfer ariannu llywodraeth leol yng Nghymru. Y refeniw gros sy'n daladwy gan ardrethi annomestig yw dros £1.3bn. Ar ôl cymhwyso rhyddhad, mae ardrethi annomestig yn cyfrannu dros £1bn at gyllid blynyddol gwasanaethau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu dros £230m y flwyddyn o ryddhad statudol. Mae'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn darparu dros £125m o ryddhad eleni. Nid yw dros hanner y busnesau yn talu unrhyw ardrethi o gwbl. Mae ein cynllun rhyddhad elusennol yn darparu budd-dal o dros £65m, sy'n golygu bod elusennau a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol yn cael rhwng 80% a 100% oddi ar eu biliau ardrethi. Mae Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag yn darparu cyfnod eithrio cychwynnol rhag ardrethi pan fydd eiddo'n dod yn wag, gyda chyfanswm y rhyddhad yn bron i £30m. Mae effaith y coronafeirws ar lefelau eiddo gwag a'r sylfaen drethu yn dal i gael ei hasesu. Mae'r cynlluniau hyn oll yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Yn 2020-21, fel rhan o'n mesurau ar gyfer argyfwng Covid-19, gwnaethom gyflwyno ein Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch, gan roi rhyddhad o 100% i dalwyr ardrethi sy'n meddiannu eiddo â gwerth ardrethol o hyd at £500,000. Rydym hefyd wedi cynnig dros £875m o gymorth grant i dalwyr ardrethi annomestig. Mae'r rhai â gwerth ardrethol o hyd at £12,000 wedi cael grant o £10,000 ac mae'r rhai sy'n gymwys ar gyfer Rhyddhad Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £50,000 wedi cael grant o £25,000.

Drwy gydol 2021-22, bydd gwaith helaeth yn cael ei wneud i baratoi ar gyfer ailbrisiad nesaf ardrethi annomestig, a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghoriad ar osod ardrethi datgyfalafu i eiddo heb werth rhentu ar y farchnad. Mae hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y gwanwyn. Tua diwedd y flwyddyn, bydd gwaith paratoi pellach yn cael ei wneud i archwilio effaith bosibl yr ailbrisiad ar y sylfaen drethu. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i fonitro effaith Covid-19 ar sylfaen drethu eiddo annomestig. Byddwn hefyd yn ystyried y polisi tymor hwy ar y cyfnod rhwng pob ailbrisiad a'r dewisiadau ar gyfer diwygio apeliadau mewn cysylltiad ag ardrethi annomestig.

Ar 15 Rhagfyr, cyhoeddom y byddai'r lluosydd ardrethi annomestig yn cael ei rewi ar gyfer 2021-22. Mae'r lluosydd yn rhan hollbwysig o bennu biliau talwyr ardrethi. Bydd y penderfyniad hwn yn sicrhau, cyn gweithredu unrhyw ryddhad, na fydd cynnydd yn swm yr ardrethi mae busnesau a thalwyr ardrethi eraill yn eu talu

flwyddyn nesaf. Bydd capio cynnydd y lluosydd ardrethi annomestig i CPI, yn hytrach nag RPI, rhwng 2018-19 a 2020-21, ynghyd â rhewi'r lluosydd yn 2021-22, yn golygu y bydd talwyr ardrethi yng Nghymru wedi arbed dros £90 miliwn ar eu biliau ardrethi ers 2018-19.

Mae Llywodraeth Cymru yn asesu'r adnoddau sydd ar gael cyn gwneud penderfyniad ynghylch sut i ddarparu cymorth yn y dyfodol drwy ryddhad ardrethi annomestig yn 2021-22. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd yn gwneud penderfyniad ynghylch cymorth ardrethi annomestig yn y flwyddyn newydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o dargedu unrhyw gyllid canlyniadol ychwanegol a ddyrennir i Gymru er mwyn cefnogi ein cymunedau a'n busnesau yng Nghymru fel rhan o'n cyllideb a'n blaenoriaethau gwario.

## Y Dreth Gyngor

Mae'r hyblygrwydd i osod eu cyllidebau a'u lefelau treth gyngor eu hunain yn adnodd allweddol o ran helpu awdurdodau lleol i ddelio â'r heriau sy'n codi yn sgil blynyddoedd o gyni a orfodwyd gan Lywodraeth y DU. Mae gosod cyllidebau a threth gyngor yn fater i awdurdodau lleol unigol ac nid yw Llywodraeth Cymru yn mynnu bod awdurdodau'n cynnal refferenda lleol costus i osod eu lefel treth uwchben terfyn penodol. Mae pob awdurdod yn atebol i'w etholwyr am y penderfyniadau mae'n eu gwneud, gan gynnwys ei gyfradd treth gyngor. Mae angen i awdurdodau ystyried yr holl ffynonellau incwm sydd ar gael iddynt wrth bennu eu cyllidebau. Mae angen iddynt daro cydbwysedd rhwng cynnal gwasanaethau lleol a chydnabod y baich ariannol ar aelwydydd.

Mae awdurdodau lleol wedi adrodd bod y pandemig wedi effeithio ar gyfraddau casglu treth gyngor eleni. Rydym wedi cytuno i fonitro'r sefyllfa, yn enwedig gan fod nifer o awdurdodau wedi defnyddio gwahanol gyfnodau talu a gwyliau talu ar ddechrau'r pandemig, mewn ymdrech i leddfu'r pwysau ar drethdalwyr lleol. Dylai'r sefyllfa fod yn gliriach erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac rydym wedi cytuno i ystyried dewisiadau ar gyfer darparu cyllid ychwanegol os bydd angen, i liniaru diffyg bryd hynny.

## Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Mae ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn targedu cymorth tuag at yr aelwydydd sydd ei angen fwyaf. Mae tua 280,000 o aelwydydd agored i niwed ac incwm isel yn cael cymorth i dalu eu biliau treth gyngor drwy'r cynllun. O'u plith, nid yw tua 220,000 yn talu unrhyw beth o gwbl. Rydym wedi cynnal hawliau llawn i gymorth ers i fudd-dal y dreth gyngor ddod i ben yn 2013. Rydym yn bwriadu cynnal hawliau eto yn 2021-22 a byddwn yn parhau i ddarparu £244m drwy'r setliad blynyddol i ariannu'r cynllun.

Mewn ymateb i nifer cynyddol y ceisiadau i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y mae awdurdodau wedi'u cael o ganlyniad i bandemig y coronafeirws, hyd yma mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £5.45m o gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol o Gronfa Galedi Covid-19. Mae swyddogion yn gweithio gyda CLlLC ac awdurdodau

lleol i barhau i fonitro'r effaith yng ngweddill y flwyddyn ac wedi cytuno i ystyried y sefyllfa pan fydd ffurflenni Chwarter 3 wedi dod i law.

## Tai ac Adfywio

Mae tai yn faes blaenoriaeth allweddol yn *Ffyniant i Bawb*, sy'n nodi ein gweledigaeth y dylai pawb *fyw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu helpu i fyw bywydau iach, llwyddiannus a ffyniannus.* Dros dymor y Senedd hon byddwn wedi buddsoddi £2bn i gydnabod pwysigrwydd tai da o ansawdd i gefnogi cymunedau sy'n ffynnu. Mae pandemig Covid-19 wedi dangos beth gellir ei gyflawni drwy wneud ymdrech system gyfan ar y cyd, wedi'i chefnogi gan fuddsoddi sylweddol. Mae wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cartref a chymuned, ac wedi gwneud i bobl ganolbwyntio ar ddyfodol ein trefi.

Fel rhan o'n hymdrech adfer yn 2020-21, roeddem wedi darparu buddsoddiadau ychwanegol mewn tai cymdeithasol, canol trefi, a chyllid i ddatgloi safleoedd segur er mwyn cefnogi adferiad economaidd gwyrdd sy'n cael ei arwain gan dai. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn darparu cymorth ariannol parhaus yn y meysydd hyn.

Bydd **£170m** yn cael ei fuddsoddi mewn tai cymdeithasol yn 2021-22 (**£14.8m** yn ychwanegol at y llinell sylfaen bresennol) i sicrhau ein bod yn parhau â'r lefel uchel o ddarpariaeth tai cymdeithasol yr ydym wedi dechrau ei chyflawni yn ystod y tymor llywodraethu presennol, a pharhau i symud i ddull atal ac ailgartrefu cyflym i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru yn unol ag argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd. Bydd dyraniadau o **£40m** a **£4m** i'r Grant Cymorth Tai a'r Grant Atal Digartrefedd yn sbarduno trawsnewid yn ein cynlluniau i fynd i'r afael â digartrefedd.

Yn ogystal â hyn, mae'r pandemig wedi amlygu'r angen am gartrefi diogel sy'n addas i anghenion tenantiaid a'u gofynion o ran gwaith. Bydd ein buddsoddiad mewn tai fforddiadwy yn sbarduno safonau uwch o ran gofod, parodrwydd band eang a mynediad at ofod awyr agored o ansawdd uchel. Rydym yn cadw ein cyllideb Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Gwaddoli ar **£108m** i sicrhau bod Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael ei chynnal ac y rhagorir arni, a bydd buddsoddiad o **£74m** yn nhrydydd cam Cymorth i Brynu – Cymru yn gosod safonau uwch, gan gynnwys ar gyfer gofod a chysylltedd band eang.

Mae gwella cartrefi ac amgylcheddau lleol yn effeithio ar nifer o agweddau ar fywyd, iechyd a llesiant pobl. Dyna pam mae creu lleoedd yn rhan enfawr o'n dull Trawsnewid Trefi. Mae'r pandemig wedi cyflymu newidiadau i'n strydoedd mawr ac i ganol trefi a dinasoedd, gan amlygu'r angen i ailfeddwl am sut rydym yn defnyddio trefi a dinasoedd i hyrwyddo byw, dysgu, hamdden, mannau gwyrdd a thwf economaidd sy'n ymgorffori amrywiaeth. Yn 2021-22 byddwn yn buddsoddi **£46.8m** i wireddu'r weledigaeth hon, sy'n cynnwys **£5m yn ychwanegol** o gyfalaf trafodiadau ariannol i ddarparu Benthyciadau Canol Trefi.

### <u>Cymorth Tai a Digartrefedd</u>

Rydym yn credu'n gryf y dylai pawb yng Nghymru gael lle teilwng i'w alw'n gartref ac rydym wedi ymrwymo i'n **nod o roi diwedd ar ddigartrefedd**. Mae buddsoddi mewn tai o ansawdd da, cymorth tai ac atal digartrefedd yn feysydd buddsoddi hollbwysig i helpu i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae cartrefi o ansawdd da yn

sylfaen i gymunedau da ac yn sail i unigolion ac i deuluoedd allu ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywyd.

Mae buddsoddi mewn tai yn cyflawni amcan polisi allweddol ac yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill, ac yn bwysicach byth, mae'n gwella canlyniadau i unigolion a theuluoedd. Rydym yn amcangyfrif bod o leiaf 4,000 o bobl mewn llety dros dro ledled Cymru ar hyn o bryd, o ganlyniad i'r pandemig. Mae tystiolaeth gan Crisis UK yn dangos bod pobl sy'n ddigartref am dri mis neu fwy yn costio £18,388 ar gyfartaledd i wasanaethau cyhoeddus (iechyd a chyfiawnder troseddol), sy'n cyfateb i dros £73m o gostau i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (dros £25.5m mewn gwasanaethau iechyd yn unig) i'r bobl hynny sydd mewn llety brys ar hyn o bryd os na chaiff eu digartrefedd ei ddatrys.

Mae teuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro a mathau eraill o ddigartrefedd yn llai tebygol o gael gafael ar wasanaethau cymorth pwysig. Gall digartrefedd gael effaith negyddol sylweddol ar blant yr aelwydydd hyn hefyd, a hynny ar eu llesiant, eu datblygiad a'u cyrhaeddiad addysgol. Ar ben hynny, mae cael cartref sefydlog a diogel yn bwysig i rieni. Hebddo, maent yn llai tebygol o gael gafael ar gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth tymor hir, sydd yn ei dro'n effeithio ar eu hincwm. Maent felly yn wynebu risg uwch o fyw mewn tlodi. Bydd buddsoddi mewn tai a gwasanaethau cymorth tai yn helpu i sicrhau bod plant digartref yn cael cymorth i symud i gartrefi tymor hir. Bydd trawsnewid y ffordd o ddarparu gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru yn canolbwyntio ar atal hefyd, gan anelu at leihau'r risg o ddigartrefedd i blant.

Yn ystod 2020-21, ar ddechrau ein hymateb i'r pandemig, gwnaethom ymdrechu i sicrhau bod pob unigolyn yn cael amgylchedd diogel lle roedd ei iechyd, ac iechyd pobl eraill, wedi'i ddiogelu. Gwnaethom ddarparu cyllid drwy'r Gronfa Galedi Llywodraeth Leol i sicrhau y gallai awdurdodau lleol ddarparu llety dros dro brys a chymorth i'r rhai sy'n cysgu allan, neu yn byw mewn llety dros dro anaddas yng Nghymru. Gan adeiladu ar yr ymateb cychwynnol hwn, gwnaethom fuddsoddi rhagor o gyllid i Gam 2 ein Cynllun Digartrefedd i sicrhau y gellid helpu pobl i symud i gartref parhaol a pheidio â gorfod dychwelyd i'r stryd. Er gwaethaf y pwysau ar ein hadnoddau, rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn gweithgareddau atal hefyd.

Rydym yn cydnabod na fydd buddsoddiad cyfalaf mewn adeiladu tai newydd ar ei ben ei hun yn rhoi diwedd ar ddigartrefedd oni bai ein bod hefyd yn buddsoddi yn y gwasanaeth cymorth sydd eu hangen i sicrhau y gall pobl ffynnu yn y cartrefi hyn. I adeiladu ar y camau sylweddol rydym wedi'u cymryd tuag at ein nod tymor hir o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, mae angen buddsoddiad ar y cyd mewn adeiladu a gwasanaethau cymorth. Felly, rydym wedi dyrannu **refeniw ychwanegol o £40m** i wella'r gwasanaethau cymorth hyn yn 2021-22 ac i ateb y galw – bydd cyfanswm o **£166.8m** yn cael ei fuddsoddi drwy'r Grant Cymorth Tai yn 2021-22 i gefnogi'r gwaith o sicrhau'r trawsnewid sydd ei angen i gyflawni ein nod tymor hir o roi diwedd ar ddigartrefedd. Mae diwygio'r system dai yn gyfle i gyfrannu'n sylweddol at Gymru decach sy'n fwy cyfartal.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn rhaglen ataliol sy'n canolbwyntio ar helpu'r rhai y mae angen cymorth arnynt nawr i gefnogi a chynnal cartref, ac ar ddatblygu dulliau cyflawni arloesol sydd wedi'u dylunio i atal pobl rhag bod yn fwy agored i niwed yn y dyfodol. Mae'n mynd i'r afael ag anghenion tai a chymorth tai yr unigolion mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas drwy amrywiaeth o ddulliau ymyrryd yn gynnar, atal, a chefnogi. Mae'n helpu pobl agored i niwed i fynd i'r afael â'r problemau lu sydd ganddynt weithiau, fel dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl.

Mae'r cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i anelu at helpu pobl i sicrhau a chadw cartref cynaliadwy drwy roi sylw i'r problemau sydd ganddynt, helpu i wella eu hiechyd a'u llesiant, a'u helpu i gael swydd neu gyfle hyfforddi, neu i symud yn nes at hynny, ar sail eu hamgylchiadau penodol. Mae'n mynd ati i leihau neu ddileu anfanteision pobl agored i niwed i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag eraill, ac felly i gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn cefnogi'r nod o gydweithio i atal digartrefedd a, lle na ellir ei atal, sicrhau ei fod yn brin, yn fyr ac nad yw'n cael ei ailadrodd. I wneud hyn mae angen inni fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd digartrefedd a gweithio i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain am hirach. Drwy'r grant hwn rydym yn ceisio sicrhau *Cymru lle nad oes neb yn ddigartref, a lle mae gan bawb gartref diogel y gallant ffynnu ynddo, a byw bywyd bodlon, bywiog ac annibynnol*.

Yn ogystal â'r dyraniad £40m i'r Grant Cymorth Tai, rydym hefyd wedi dyrannu **£4m** o refeniw o gronfa Covid-19 i'r **Grant Atal Digartrefedd**, gan gynyddu'r grant hwn i **£21.9m** yn 2021-22. Mae'r Grant Atal Digartrefedd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u hanelu at atal digartrefedd a, lle na ellir ei atal, sicrhau ei fod yn brin, yn fyr ac nad yw'n cael ei ailadrodd. Mae'r Grant Atal Digartrefedd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu amrywiaeth o weithgareddau atal a lleddfu digartrefedd, ac yn cryfhau gweithrediad deddfwriaeth digartrefedd. Mae hyn, yn ei dro, yn mynd i'r afael â nifer o'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn benodol Cymru Iachach ond hefyd Cymru sy'n Fwy Cyfartal a Chymru o Gymunedau Cydlynus. Bydd y cyllid **ychwanegol o £40m** i'r Grant Cymorth Tai yn ogystal â'r **£4m ychwanegol** i'r Grant Atal Digartrefedd yn helpu i sicrhau'r trawsnewid sydd ei angen i gyflawni nod tymor hir Llywodraeth Cymru o roi diwedd ar ddigartrefedd.

Mae pandemig Covid-19 wedi amlygu'r lefel uchel o anghenion cymorth nad oedd wedi'u bodloni o'r blaen ac er bod y cyllid ychwanegol brys wedi helpu i'w bodloni yn y tymor byr i ddiogelu pobl yn ystod y pandemig, mae angen y buddsoddiad tymor hwy hwn mewn cymorth tai i'n galluogi i adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud a pheidio â chymryd cam yn ôl. Bydd y **£4m o gyllid ychwanegol** i'r Grant Atal Digartrefedd yn ein galluogi i gynnal y ddarpariaeth frys o lety a chymorth yn y rhannau cynnar o'r flwyddyn ariannol nesaf yn ôl yr angen, a sicrhau bod parhad y ddarpariaeth. Bydd y dyraniad hwn yn ddigonol i ateb y galw disgwyliedig am gyfnod byr yn unig yn ystod 2021-22. Bydd dyraniadau pellach o gronfa wrth gefn Covid-19 yn cael eu hystyried yn y Gyllideb Derfynol ar ôl i'r Cabinet ystyried yr angen ar draws Llywodraeth Cymru.

Bydd y cyllid hwn yn ein galluogi i gynnal ac adeiladu ar y dull 'pawb mewn', ac yn helpu i symud i ddull ailgartrefu cyflym trawsnewidiol fel y nodir yn argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, ac sydd ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

## **Tai Cymdeithasol**

Mae buddsoddi mewn tai cymdeithasol yn ymrwymiad allweddol ac yn elfen ganolog o'r adferiad economaidd gwyrdd sy'n cael ei arwain gan dai, ac mae ganddo'r potensial i sicrhau enillion sylweddol ar y buddsoddiad mewn termau economaidd a budd sylweddol mewn termau cymdeithasol. Mae cyflenwi pobl â chartref diogel, cynnes a sicr yn dal yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae tai cymdeithasol yn dal yn un o'n prif flaenoriaethau. Gall ddarparu cartrefi o ansawdd uchel a'r cymorth sydd ei angen i sicrhau bod pobl yn gallu cadw eu tenantiaeth a ffynnu. Gall gael effaith

gadarnhaol ar iechyd, iechyd meddwl ac addysg, a dyna pam ein bod wedi cefnogi tai cymdeithasol ers dyfodiad y Senedd.

Ein bwriad yw adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud yng Nghymru a'i gryfhau. Felly, fel rhan o'r gyllideb hon, rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi **£170m** yn y maes hwn yn 2021-22. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i barhau â'r lefel uchel o ddarpariaeth tai cymdeithasol yr ydym wedi dechrau ei chyflawni yn ystod y tymor llywodraethu hwn.

Mae buddsoddi mewn tai cymdeithasol o ansawdd da nid yn unig yn diogelu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, ond hefyd yn helpu i gefnogi economi Cymru, gan greu a diogelu cyfleoedd hyfforddi, swyddi a chadwyni cyflenwi drwy ddull gweithredu 'buddion cymunedol'. Mae buddion cymunedol a chaffael contractau yn galluogi buddion ein buddsoddiad i aros yng Nghymru er mwyn i gymunedau lleol fanteisio i'r eithaf arnynt. Yn 2021-22 rydym yn **dyrannu £36.8m yn ychwanegol** i dai cymdeithasol. O'r swm hwn, bydd £20m yn cefnogi'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, bydd £2m yn cael ei gyfeirio at y Grant Addasiadau Ffisegol, a bydd y balans yn ategu Grantiau Tai Cymdeithasol.

Mae Cyfrifon Cynhwysfawr 2019 yn dangos bod cymdeithasau tai yng Nghymru wedi gwario dros £1.3 biliwn yn 2019 (gan gynnwys gwariant gweithredol, costau staff, gwariant adeiladu a gwaith cynnal a chadw/mawr). Roedd 85% o'r swm hwn yn wariant a gadwyd yng Nghymru. Mae ein buddsoddiad mewn tai yn galluogi'r sector cymdeithasau tai i ddenu cyllid o'r sector preifat. Mae'r sector wedi benthyg dros £3bn i adeiladu cartrefi newydd a gwella cartrefi sy'n bodoli eisoes. Rhagwelir y bydd hyn yn codi £0.2bn y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf. Yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, mae cymdeithasau tai yng Nghymru yn cefnogi tua 25,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

Mae ein buddsoddiad cyfalaf mewn datblygu tai cymdeithasol newydd yn **ataliol** ei natur; mae pob £1.20 sy'n cael ei wario ar gartrefi teilwng yn arbed £1.80 i'r trethdalwr ar gost pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n bosibl creu cyfleoedd arwyddocaol o ran swyddi a hyfforddiant drwy ddull buddion cymunedol

Mae'r swyddi sy'n cael eu creu drwy ddatblygu tai yn galluogi llawer o'r gweithlu adeiladu di-waith i adael y rhestr diweithdra, gan leihau'r gwariant ar fudd-daliadau a hybu cyfleoedd prentisiaethau a hyfforddiant. Amcangyfrifir y bydd yr arbedion lles blynyddol yn cynyddu i £1.1 biliwn y flwyddyn erbyn diwedd tymor Llywodraeth y DU. Hefyd mae landlordiaid cymdeithasol wedi gwario £200 miliwn dros y pum mlynedd ddiwethaf ar brosiectau i helpu preswylwyr di-waith ac ar fentrau i fynd i'r afael â diweithdra. Mae ffigurau Trysorlys ei Mawrhydi yn dangos bod gwario £1 miliwn yn gwella tai sy'n bodoli eisoes yn cefnogi dros 32 swydd yn y diwydiant adeiladu.

## Cymorth i Brynu

Dyraniad adfer allweddol arall yw ein buddsoddiad o **£74m** yng Ngham 3 Cymorth i Brynu – Cymru. (Mae ad-daliadau o £1.7m mewn perthynas â Chamau 1 a 2 wedi cael eu debydu oddi ar y dyraniad hwn). Yn ogystal â helpu darpar berchnogion tai y mae angen cymorth ariannol arnynt i brynu tŷ, bydd hefyd yn cefnogi'r diwydiant adeiladu tai, cadwyni cyflenwi, yr economi a swyddi.

Mae'r cynllun yn cefnogi'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i brynu tŷ ac mae gwneud hynny'n lleddfu'r pwysau ar restrau aros tai rhentu cymdeithasol a thai yn y sector rhentu preifat. Mae gan Cymorth i Brynu – Cymru archwiliadau fforddiadwyedd ar gyfer cwsmeriaid, sy'n ychwanegol at archwiliadau benthycwyr morgeisi arwystl cyntaf, gan sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu bodloni eu rhwymedigaethau ariannol ac atal problemau o ran caledi ariannol i gwsmeriaid. Mae datblygu tai fforddiadwy i'w gwerthu yn rhoi cyfle i bobl fyw mewn cartrefi o ansawdd uchel a mwynhau'r buddion o ran iechyd a llesiant sy'n gysylltiedig â chartrefi da, gan atal problemau iechyd a chymdeithasol rhag codi yn y dyfodol.

Mae'r buddsoddiad yn Cymorth i Brynu – Cymru yn cefnogi, yn cynnal ac yn datblygu'r diwydiant adeiladu, a bydd yn parhau i wneud hynny. Bydd Cam 3 yn ddull cefnogi allweddol ar gyfer y diwydiant adeiladu tai ac yn yr hinsawdd sydd ohoni mae'n bwysig iawn o ran ei helpu i adfer o effaith Covid-19. Mae'r cyfyngiadau symud a'r arferion gweithio'n ddiogel newydd wedi effeithio ar y diwydiant adeiladu tai, ac mae pryder ynglŷn â dyfodol datblygwyr llai sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae 134 o fusnesau bach a chanolig wedi cofrestru â'r cynllun. Mae Cymorth i Brynu – Cymru yn ffynhonnell incwm ddibynadwy a phwysig i'r busnesau hyn. Mae'r cynllun hefyd yn cefnogi pawb sy'n rhan o'r broses o brynu a gwerthu tai. (Mae 10,985 o dai wedi cael eu cyflawni ers dechrau'r cynllun, a 7,903 ers dechrau'r tymor llywodraethu hwn – yn gywir ar 30 Medi 2020).

Yn ei dro, drwy sbarduno'r diwydiant adeiladu tai, mae'r cynllun yn cefnogi'r gwaith o ddechrau a chyflawni tai sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd (yn 2018-19 – y flwyddyn ddiweddaraf lle mae data blwyddyn gyfan ar gael – roedd y sector preifat yn gyfrifol am 78% o'r holl dai a gyflawnwyd), ac yn sicrhau buddion cymunedol. Er enghraifft bydd datblygu 263 o dai yn Radur, Caerdydd yn sicrhau bod 30% o dai fforddiadwy ar y safle ac yn darparu £1.6m i ysgolion lleol, £750,000 i wasanaethau bws a £260,000 i ganolfannau cymunedol lleol, yn ogystal â buddion ychwanegol.

Mae'r cynllun yn gweithio tuag at y saith nod a phum ffordd o weithio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, drwy gyfrannu at Gymru iachach sy'n fwy cyfartal. Dengys hyn drwy'r buddion iechyd clir o gael cartref o ansawdd da sy'n fforddiadwy ac wedi'i leoli mewn amgylchedd diogel. Mae buddsoddi mewn adeiladu tai yn cyfrannu at economïau lleol, yn creu ac yn cefnogi swyddi a chyfleoedd hyfforddi, ac yn gwella iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd pobl.

Mae'r cynllun yn enghraifft o weithio mewn partneriaeth i gyd-gynhyrchu'r canlyniadau gorau posibl, gan fanteisio ar y cryfderau a'r asedau gall pobl a lleoedd eu cyfrannu. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â datblygwyr, cyrff cynrychioladol, UK Finance a Help to Buy (Wales) Ltd/Banc Datblygu Cymru i gyd-gynhyrchu Cam 3. Bydd nifer o newidiadau yn cael eu cyflwyno yng Ngham 3 i fynd i'r afael â beirniadaeth o'r cynllun, i sicrhau bod y cymorth yn cael ei dargedu at y rhai sydd ei angen fwyaf, ac i barhau i gefnogi'r diwydiant adeiladu tai a darpar gwsmeriaid. Cytunwyd ar fanylion y cynllun drwy is-grŵp o'r Rhaglen Ymgysylltu Adeiladwyr Tai, lle trafodwyd a chytunwyd ar bob agwedd ar y Cam 3 newydd.

## Datgarboneiddio a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

Er bod cefnogi adferiad yr economi wedi bod yn ystyriaeth allweddol yng nghyllideb y flwyddyn hon, mae ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd wedi bod yn flaenllaw yn ein penderfyniadau hefyd.

Drwy **fuddsoddi £20m o gyfalaf** yn 2021-22 rydym wedi ymrwymo i ymestyn y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, sy'n canolbwyntio ar ddatgarboneiddio cartrefi a chreu nifer o fuddion eraill ar yr un pryd drwy ddatblygu sgiliau newydd, adnoddau asesu, cadwyni cyflenwi a fframweithiau caffael sy'n hybu datblygiad busnesau bach a chanolig ac yn creu swyddi. Bydd y rhaglen yn darparu pecyn ysgogi ar gyfer hybu twf economaidd. Wrth gwrs un o'i fuddion allweddol eraill yw ei fod yn ceisio gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Bydd y buddsoddiad hwn yn caniatáu i ni brofi'r dull mewn llawer mwy o gartrefi. Mae'n hawdd ei ehangu, mae'n gynaliadwy, a gall gynyddu gwybodaeth yn ddigonol a meithrin arbenigedd yng Nghymru er mwyn cefnogi cyflwyno ar raddfa fwy, a helpu i gyrraedd ein targedau datgarboneiddio erbyn 2050. Pan fydd ar waith, bydd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio hefyd yn cefnogi'r her tymor hwy o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Yn ogystal â hyn, nawr bod ein Rhaglen Tai Arloesol lwyddiannus yn ariannu'r gwaith o adeiladu tai fforddiadwy yn gyflym ac ar raddfa fawr, bydd yn cael ei phrif ffrydio i'n rhaglen fuddsoddi graidd mewn tai cymdeithasol, gan geisio adeiladu tai cymdeithasol sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac sydd bron yn ddi-garbon. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall dulliau modiwlar a dulliau modern eraill o adeiladu tai yn gallu cyflawni tai sydd bron yn ddi-garbon yn llwyddiannus, ac felly ystyrir bod y buddsoddiad hwn yn hollbwysig o ran yr ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Bydd gwneud y tai hyn yn rhai gwyrdd a chynaliadwy yn lleihau tlodi tanwydd, yn gwella llesiant preswylwyr, ac yn cyfrannu at y gwaith o leihau ein hôl troed carbon.

## Tai ac Iechyd

Byddwn yn parhau i fuddsoddi ac yn cynyddu ein buddsoddiad yn y Gronfa Gofal Integredig gyda chyllideb o fwy na **£130m** (£89m o refeniw a £40m o gyfalaf yn 2021-22). Bydd rhaglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig yn parhau i ganolbwyntio ar fuddsoddi mewn llety i alluogi pobl hŷn ag anghenion gofal a chymorth, a phobl ag anableddau dysgu, i barhau i fyw'n annibynnol, gan leihau'r baich ar ysbytai a gwasanaethau gofal preswyl. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn llety i blant ag anghenion cymhleth i sicrhau eu bod yn gallu byw'n agos i adref ac osgoi lleoliadau y tu allan i'r sir, sy'n gostus ac yn achosi trallod.

Byddwn yn cefnogi'r buddsoddiad cyfalaf hwn â modelau gwasanaeth ataliol ac integredig, gan gynnwys i blant mewn gofal neu sydd mewn perygl o fynd i ofal a gofalwyr.  Mae cyfres o wasanaethau wedi cael eu datblygu ar draws y continwwm atal, yn amrywio o gysylltwyr cymunedol i wasanaethau, i helpu pobl i aros yn iach gartref ac atal derbyniadau i'r ysbyty. Rheolir y Gronfa drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan ddod â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ynghyd i gyflenwi gwasanaethau ar sail anghenion dinasyddion.

Mae parhau i fuddsoddi yn rhaglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig yn cynnig dewisiadau i adeiladu ar y rhaglen bresennol, gan fuddsoddi mewn asedau i gryfhau'r seilwaith tai a gofal cymdeithasol er mwyn cefnogi Cymru Iachach. Gan ei bod yn rhaglen ataliol, mae'n anelu at leihau'r galw am ofal preswyl tymor hir a'r costau sy'n gysylltiedig â derbyniadau i'r ysbyty a lleoliadau drud. Mae'n cynnig buddion hirdymor cronnol: cyfleoedd o ran swyddi a chadwyni cyflenwi yn ystod y gwaith adeiladu; caffael asedau cymdeithasol newydd; llety sy'n sicrhau arbedion dros oes y buddsoddiad; a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, gan ategu'r modelau gofal a nodir yn Cymru Iachach.

Mae ein rhaglenni addasu refeniw a chyfalaf Byw'n Annibynnol yn enghreifftiau pellach o wariant ataliol. Maent yn cael effaith arwyddocaol iawn drwy alluogi pobl anabl i wneud eu penderfyniadau eu hunain am ble maent yn dymuno byw, gan hybu annibyniaeth ac urddas yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd. Mae rhaglenni addasu yn canolbwyntio ar wneud addasiadau a gwelliannau i eiddo sy'n bodoli eisoes er mwyn galluogi pobl anabl, pobl hŷn bregus, a theuluoedd â phlant ag anghenion cymhleth i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Maent hefyd yn darparu addasiadau cyflym i hwyluso rhyddhau cleifion o ysbytai yn brydlon ac i atal oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae'r rhaglenni'n lleddfu'r pwysau ar y GIG, yn enwedig drwy leihau nifer yr achosion o gwympo sy'n gysylltiedig ag aros yn yr ysbyty am gyfnod hir a chanlyniadau hirdymor gwael, ac yn lleddfu'r pwysau ar ofal cymdeithasol drwy leihau'r galw am ofal preswyl.

Dyna pam ein bod yn cynnal ein cymorth refeniw a chyfalaf Gofal a Thrwsio ar **£4.3m** ac **£1.6m** yn y drefn honno, a'n cyllideb cyfalaf HWYLUSO ar **£4m**. Rydym hefyd wedi cynyddu cyllideb cyfalaf y Grant Addasiadau Ffisegol gyda **dyraniad o £2m** i gyllideb gyffredinol o **£10m**, sy'n adlewyrchu'r galw cynyddol am y grant hwn dros y blynyddoedd diwethaf.

Bydd y buddsoddiadau hyn yn helpu i greu cartrefi diogel, cynnes a hygyrch, gan helpu pobl hŷn yng Nghymru i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Bydd hefyd yn cefnogi'r GIG drwy hwyluso rhyddhau cleifion yn brydlon ac atal derbyniadau diangen, ac yn lleihau'r costau ar ofal cymdeithasol drwy leddfu'r pwysau ar ofal cartref a phreswyl.

Mae rhaglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig a'r rhaglenni addasu Byw'n Annibynnol yn cyfrannu'n uniongyrchol at Gymru Iachach drwy gynyddu'r cyfraniad mae tai a thai wedi'u haddasu yn gallu ei wneud i helpu rhai o'r grwpiau mwyaf agored (pobl hŷn gan gynnwys y rhai â dementia, oedolion ag anableddau corfforol a dysgu, a theuluoedd â phlant ag anghenion cymhleth) i fyw'n annibynnol yn y gymuned. Maent yn fuddsoddiadau ataliol sy'n creu buddion cronnol i unigolion dros amser ac sy'n atal problemau rhag dwysáu. Dim ond drwy'r pum ffordd o weithio y gellir rhoi'r rhaglenni ar waith, gyda ffocws penodol ar gydweithio ac integreiddio rhwng gwasanaethau tai a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a chynnwys ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio a gweithredu atebion.

## Safon Ansawdd Tai Cymru

Rydym hefyd yn cynnal ein cefnogaeth ar gyfer landlordiaid cymdeithasol gyda **£108m y flwyddyn** er mwyn sicrhau bod Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael ei chyrraedd a'i chadw. Mae angen i'n 225,000 o dai cymdeithasol presennol fod o safon uchel, gan gydnabod bod tai o ansawdd yn cael effaith amlwg ar iechyd a llesiant, ac ar lesiant meddyliol yn benodol.

Bydd y safonau yn y dyfodol yn canolbwyntio ar wneud ein tai cymdeithasol yn fwy effeithlon, ar wella effeithlonrwydd tanwydd, ac ar **leihau carbon** i sicrhau ei bod yn hawdd ac yn rhad cadw ein tai cymdeithasol yn gynnes, gan leihau ein hôl troed carbon ar yr un pryd.

### Diogelwch Adeiladau

Yn dilyn trasiedi Twr Grenfell, mae cryn dystiolaeth fod amrywiaeth o wendidau diogelwch adeiladau systemig yn dal yn gysylltiedig ag adeiladau preswyl uchel iawn.

O dan gontractau lesddaliad presennol, mae'n debygol mai ar y lesddeiliad y mae'r cyfrifoldeb i ariannu gwaith atgyweirio yng ngolwg y gyfraith. Ond heb gymorth ariannol, mae gwaith atgyweirio'n annhebygol o ddigwydd yn gyflym oherwydd byddai baich ariannol sylweddol ar lesddeiliaid, a allai arwain at fethdaliad neu galedi ariannol sylweddol i lawer. Yn ôl yr amcangyfrifon, byddai'r gost i lesddeiliaid rhwng £12k a £79k yn dibynnu ar ddifrifoldeb y diffygion. Mae'r broblem wedi'i dwysáu gan faterion cysylltiedig o ran morgeisi ac yswiriant sy'n atal benthyciadau yn erbyn eiddo â phroblemau cladin wedi'u nodi, sy'n gwneud i bobl deimlo'n gaeth yn eu cartref eu hunain.

Nid dim ond problemau tai y mae preswylwyr adeiladau uchel iawn yn eu hwynebu. Mae pryderon sylweddol ynglŷn ag iechyd meddwl y rhai sy'n byw yn yr adeiladau hyn. Mae risg wirioneddol y gallant ddatgan eu bod yn ddigartref neu y bydd angen cymorth ariannol ychwanegol a mynediad hirdymor at wasanaethau cymorth arnynt. Bydd y diwygiadau i ddiogelwch adeiladau yn y dyfodol sy'n cael eu datblygu yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau hyn a'u hatal rhag codi yn y dyfodol.

Mae'r rhaglen diogelwch adeiladau yn cael ei datblygu ar sail drawslywodraethol. Mae effeithiau uniongyrchol ar swyddogaethau Cynllunio, Rheoli Adeiladu, Tai a Diogelu'r Cyhoedd mewn awdurdodau lleol, ac effeithiau ar Wasanaethau Tân ac Achub. Mae'r gwaith yn plethu â nifer o feysydd deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, a bydd angen deddfwriaeth newydd ar y diwygiadau yn y dyfodol hefyd. Mae swyddogion yn dal i ddatblygu'r Papur Gwyn ar Ddiogelwch Adeiladau. Caiff hwn ei gyhoeddi fis Ionawr 2021. Nid yw effeithiau'r Papur Gwyn wedi'u cyfyngu i grwpiau gwarchodedig.

Er ein bod yn gwybod bod 148 o adeiladau preswyl uchel iawn yng Nghymru (38 o rai cymdeithasol/110 o rai preifat), nid yw demograffeg y rhai sy'n byw mewn adeiladau uchel iawn yn glir. Fodd bynnag, gall rhent a phrisiau eiddo fod yn is yn yr adeiladau hyn, gan ddenu'r rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is o bosibl. Mae adeiladau uchel iawn yn denu pobl iau a hŷn yn aml, sy'n cael eu denu at y syniad o'u heiddo eu hunain ond gyda lefelau is o 'ymdrech' uniongyrchol iddynt – hy dim gerddi, rheolwr adeilad yn gwneud gwaith cynnal a chadw, ac ati, ac felly gall y grwpiau hyn fod ar incymau is neu fwy sefydlog ac felly'n llai tebygol o allu ateb galw uchel am gyfraniadau ariannol i waith atgyweirio.

Yn 2021-22 rydym wedi **dyrannu £32m** o gyfalaf mewn amrywiaeth o adeiladau drwy gynnig cyfunol o gyllid grant a benthyciadau. Bydd y gronfa refeniw gwerth **£545k** a gynhaliwyd ers y llynedd yn helpu i ddatblygu polisïau ac arbenigedd mewn perthynas â diogelwch adeiladau. Bydd y gronfa hon yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Parhad. Bydd y cyllid cyfalaf yn cefnogi adeiladau 18 metr ac uwch (fel yr amlinellir yn y Map Ffyrdd) sydd â diffygion adeiladu wedi'u nodi mewn perthynas â diogelwch adeiladu, ac yn helpu i gyflymu'r gwaith o fynd i'r afael â phroblemau o ran tân a strwythur a nodir. Bydd hefyd yn helpu i gynnal ansawdd stoc tai Cymru ac yn caniatáu i breswylwyr, lesddeiliaid a thenantiaid deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi. Bydd y buddsoddiad yn llifo drwy'r fasnach adeiladu, sy'n un o gonglfeini'r adferiad economaidd.

Bydd y Rhaglen Diogelwch Adeiladau yn defnyddio'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel egwyddorion arweiniol allweddol. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio fel sail datblygiad polisi a chamau gweithredu dilynol. Yn ymarferol, ein nod yw gwneud cartrefi'n fwy diogel (o ran yr adeiladau o fewn y cwmpas). Mae'r adeiladau hyn yn asedau aml-genhedlaeth ac felly mae'n bwysig cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y cartrefi hyn yn dal yn ddiogel i bobl fyw ynddynt nawr ac yn y dyfodol. Bydd peidio â gwneud hynny yn tanseilio

cyfanrwydd yr adeiladau ac yn effeithio ar y preswylwyr sy'n byw ynddynt. Gallai hefyd gael effaith negyddol ar faint o dai sydd ar gael dros y tymor hwy.

**Benthyciadau Canol Trefi**

Fel rhan o'n hymdrech adfer yn 2020-21, roeddem wedi darparu buddsoddiadau ychwanegol mewn canol trefi a chyllid i ddatgloi safleoedd segur, er mwyn cefnogi adferiad economaidd gwyrdd sy'n cael ei arwain gan dai. Mae'r pandemig wedi cyflymu newidiadau i'n strydoedd mawr ac i ganol trefi a dinasoedd, gan amlygu'r angen i ailfeddwl am sut rydym yn defnyddio canol trefi a dinasoedd ar gyfer hamdden, dysgu a byw, ac ailbwysleisio'r angen am wasanaethau hygyrch lleol.

Yn 2021-22 byddwn yn buddsoddi cyfanswm o **£46.8m** yn ein dull gweithredu Canol Trefi yn Gyntaf, gan gynnwys **£5m** o gyllid cyfalaf trafodiadau ariannol ar gyfer Benthyciadau Canol Trefi. Bwriad y dull hwn yw hyrwyddo nifer o resymau dros ymweld â chanol trefi, nid yn unig siopa ond hamdden, gwasanaethau, byw, gweithio a phrofiad, ac i annog ein partneriaid i leoli gwasanaethau yng nghanol trefi. Cymunedau sydd wrth galon y weledigaeth hon i greu amgylcheddau o ansawdd uchel yng nghanol trefi; amgylcheddau sy'n cyfrannu at iechyd a llesiant pobl ac yn hybu twf economaidd ar yr un pryd.

Benthyciadau Canol Trefi yw'r catalydd i ddefnyddio adeiladau gwag a rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon yng nghanol trefi. Maent yn rhan o'r agenda rheoli eiddo gwag ehangach, gan ddarparu dull o ddyrannu cyllid i awdurdodau lleol ei ddefnyddio mewn negodiadau ar eiddo gwag parhaol yng nghanol trefi. Mae gennym tua 25,000 o eiddo gwag yng Nghymru ac os gallwn ddefnyddio'r adeiladau hyn unwaith eto, bydd yn lleddfu'r pwysau ar adeiladwyr tai ac yn rhyddhau tir ar gyfer defnyddiau eraill neu i beidio â chael ei ddefnyddio o gwbl, gan hybu mannau gwyrdd a bioamrywiaeth.

Bydd yr adeiladau hyn yn cael eu hailddatblygu fel siopau, cartrefi a chyfleusterau hamdden. Mae'r benthyciadau wedi'u hanelu at gefnogi gweithgareddau sy'n denu ymwelwyr, yn mynd i'r afael â safleoedd ac adeiladau gwag, ac yn helpu busnesau i dyfu ac i ffynnu nawr ac yn y dyfodol. Maent yn fath o gynnyrch ad-daladwy y gellir eu defnyddio ar gyfer pob math o waith ailwampio tir ac adeiladau gwag yng nghanol trefi. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i gartrefi sy'n gysylltiedig â mesurau effeithlonrwydd ynni. Bydd y benthyciadau'n hollbwysig o ran rhoi cynllun cymhelliant i awdurdodau lleol er mwyn cyflawni newidiadau i ganol eu trefi yn dilyn cyfyngiadau symud Covid-19. Gall y gronfa benthyciadau fod ar gael i berchnogion sy'n dymuno newid eu heiddo i gyd-fynd â mesurau cadw pellter cymdeithasol.

Mae'r cyllid hwn yn ategu'r 'Economi Gylchol', lle rydym yn defnyddio hen adeiladau segur unwaith eto cyn iddynt ddirywio y tu hwnt i unrhyw waith trwsio rhesymol, a gellir ei ddefnyddio i greu cartrefi ac eiddo i deuluoedd a busnesau yn hytrach na gorfod defnyddio adnoddau i adeiladau rhai newydd. Bydd amrywiaeth o gyfleoedd i fusnesau llai, lleol gymryd rhan yn y gwaith o drwsio'r adeiladau. Byddwn yn annog awdurdodau lleol i fynd ar drywydd prosiectau cydweithredol sy'n darparu cyfleoedd enghreifftiol yn yr adeiladau gwag hyn ar gyfer buddion amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i gymunedau ar hyd a lled Cymru.

**Bioamrywiaeth a'r Gronfa Seilwaith Gwyrdd**

Mae effeithlonrwydd ynni yn ystyriaeth allweddol i unrhyw brosiectau gwella ac adnewyddu adeiladau a ariennir drwy'r rhaglen Adfywio. Bydd cyllid sy'n ei gwneud hi'n bosibl defnyddio adeiladau gwag unwaith eto yn golygu bod modd defnyddio dull cyfunol, sy'n cynnwys elfen o fenthyciad i'w gwneud hi'n bosibl ôl-osod rhai atebion carbon isel ar gyfer perchnogion adeiladau.

Bydd y buddsoddiad o **£5m** a wnaethom y llynedd i sefydlu seilwaith gwyrdd a hyrwyddo bioamrywiaeth yn ein trefi a'n dinasoedd yn parhau yn 2021-22. Bydd hyn o fudd i fioamrywiaeth ac yn ysgogi rhywfaint o fuddsoddiad mawr ei angen yng nghanol trefi, gan wella eu hapêl fel lleoedd i ymweld â nhw.

Bydd yr adnoddau a ddefnyddir ar gyfer y gwaith hwn yn helpu i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar ganol ein trefi a'n dinasoedd. Profwyd bod seilwaith gwyrdd yn helpu i oeri canol trefi a dinasoedd, gan gyfrannu'n sylweddol at lesiant preswylwyr ac ymwelwyr, a helpu i feithrin naws am le. Bydd gosod Systemau Draenio Cynaliadwy yn helpu i liniaru effeithiau llifogydd dŵr wyneb.

## Cydraddoldeb

Mae pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw at anghydraddoldeb ledled Cymru ac wedi'i ddwysáu. Un o brif nodau'r gyllideb hon yw mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Pennwyd llinell sylfaen cyllidebau refeniw ar draws y portffolio Cydraddoldeb yn ôl Cyllideb Derfynol 2020-21. Hefyd mae dyraniadau penodol wedi'u gwneud i adeiladu ar y llinellau sylfaen hyn i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

### <u>Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol</u>

Rydym am wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru i sicrhau gwlad a chymdeithas ffyniannus, gydnerth, gydlynus, iachach sy'n fwy cyfartal. Ni fydd hyn yn bosibl oni bai fod unigolion a grwpiau yn ein cymunedau yn gallu byw'n rhydd rhag ofn o drais a chamdriniaeth.

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a'u plant ac mae pandemig Covid-19 wedi dwysáu a gwaethygu'r effaith hon. Mae'r tebygolrwydd o ddioddef trais a chamdriniaeth hefyd yn cynyddu po fwyaf o ffactorau agored i niwed sydd gan unigolyn.  Mae menywod BME yn fwy tebygol, a hynny'n anghymesur, o ddioddef VAWDASV na merched gwyn. Mae pobl hŷn, pobl anabl, pobl â phroblemau iechyd meddwl a phobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau mewn mwy o berygl hefyd.

Mae nifer yr achosion o VAWDASV yn uchel iawn. Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yr ONS (ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019) yn dangos bod 28% o fenywod ac 14% o ddynion rhwng 16 a 74 oed wedi dioddef cam-drin domestig, a bod 14% o'r holl droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn gysylltiedig â cham-drin domestig.  Roedd bron i 3% o'r ymatebwyr rhwng 16 a 59 oed wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.  Yn 2019-20 roedd 45,242 o droseddau cam-drin domestig a cham-drin rhywiol wedi cael eu hadrodd i'r heddlu yng Nghymru.

Mae tystiolaeth o'r llinell gymorth Byw Heb Ofn, llinellau cymorth eraill ar draws y DU, yr Heddlu, ac elusennau plant wedi nodi cynnydd yn nifer yr achosion o gam-drin domestig

sy'n cael eu hadrodd yn ystod y pandemig. Ar yr un pryd, mae gwasanaethau i droseddwyr wedi gweld cynnydd yn nifer y galwadau gan unigolion sy'n ofni bod eu hymddygiad wedi croesi'r ffin i gamdriniaeth. Mae'n hollbwysig bod y galwyr hyn yn cael cymorth i atal eu hymddygiad rhag gwaethygu neu ddatblygu i gylch cam-drin.

Yn dilyn tystiolaeth fod VAWDASV wedi cynyddu traean o leiaf wrth i'r pandemig ledaenu dros y byd, dyrannwyd £1.575m i atgyfnerthu gwasanaethau yn ystod 2020-21. Mae cyfyngiadau symud lleol a 'chyfnodau atal byr' cenedlaethol yn cynyddu'r pwysau ar ddioddefwyr. Mae'r dystiolaeth yn dangos y bydd y galw ar wasanaethau'n parhau i dyfu ac yn mynd yn fwy cymhleth am gryn amser, ac o ganlyniad mae **£1.575m arall wedi cael ei ddyrannu yn 2021-22** hefyd i barhau i gefnogi'r gwasanaethau hollbwysig hyn. Bydd y cyllid hwn yn galluogi gwasanaethau VAWDASV arbenigol i ddarparu ymyriadau ataliol fel addysg, hyfforddiant a rhaglenni codi ymwybyddiaeth i newid agweddau, yn ogystal ag ymyriadau ymatebol fel cymorth, cyngor, arweiniad a chwnsela i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig, a rhaglenni i droseddwyr. Bydd y buddsoddiad uwch hwn yn cael effaith eang; gan ddarparu cymorth effeithiol i ddioddefwyr a throseddwyr a fydd yn helpu i leihau'r effaith ar wasanaethau iechyd a chyfiawnder troseddol.

Mae gweithio gyda throseddwyr a throseddwyr posibl i newid eu hymddygiad yn lleihau'r perygl o erledigaeth bellach.  Bydd codi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant i wasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn gwella cydnerthedd, ac yn lleihau'r effeithiau negyddol ar gyfleoedd plant mewn bywyd yn y dyfodol; ac mae helpu teuluoedd i gael llety ag adnoddau priodol yn atal digartrefedd.

Mae cyllid refeniw VAWDASV yn cyflawni nifer o nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n cefnogi "Cymru gydnerth" drwy helpu dioddefwyr trais a chamdriniaeth i gael cymorth priodol; mae eu cydnerthedd yn cael ei wella ac mae eu llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol yn cael ei ddiogelu.  Mae hefyd yn cefnogi "Cymru sy'n fwy cyfartal" a "Cymru o gymunedau cydlynus" drwy helpu dioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd i chwarae rhan lawn yn eu cymunedau, ac i gael a chadw swyddi a thai.

Mae **£1.2m o gyfalaf** wedi cael ei ychwanegu at linell sylfaen cyfalaf VAWDASV yn 2021-22 (mae hyn yn parhau â'r dyraniad a wnaed yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21). Bydd y cyllid hwn yn cael ei gyfeirio i helpu darparwyr yn y trydydd sector i brynu llety cymunedol ar wasgar sydd â'r hyblygrwydd i ddiwallu anghenion teuluoedd nad oes modd eu diwallu drwy lochesau, neu i alluogi teuluoedd i symud o lochesau. Rhoddir blaenoriaeth i gynigion sy'n cefnogi ac yn darparu buddion i deuluoedd â bechgyn yn eu harddegau; teuluoedd â chyfrifoldebau gofal ar gyfer dibynyddion hŷn neu rai ag anghenion ychwanegol; dioddefwyr sy'n ddynion; dioddefwyr ag anifeiliaid anwes; dioddefwyr ag anghenion symudedd a/neu anabledd; a goroeswyr sy'n barod i symud o lochesau ond nad ydynt yn barod i symud i lety cwbl annibynnol a pharhaol eto. Roedd y gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 ond o ganlyniad i'r pandemig, cafodd y cyllid ei ail-flaenoriaethu i ddarparu ar gyfer unigolion yr oedd Covid-19 wedi effeithio arnynt.

## <u>Cydraddoldeb</u>

Mae Covid-19 wedi dwysáu'r anghydraddoldeb sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd ac wedi cael effaith negyddol ar bobl anabl a phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn benodol. Yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21, gwnaethom ddarparu cymorth ychwanegol i sefydliadau a oedd yn chwarae rhan hanfodol yn yr ymateb i

Covid-19 a'r adferiad ohono, ac sydd wedi bod yn gyswllt hollbwysig rhwng Llywodraeth Cymru a chymunedau ar hyd a lled Cymru.

Rydym yn disgwyl i effeithiau Covid-19 barhau yn 2021-22, a pharhau i gael effaith anghymesur ar y rhai â nodweddion gwarchodedig. Byddwn yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn drwy **ddyraniad o £1.1m** a fydd yn gyfle i roi cymorth pellach i'r cymunedau hynny ledled Cymru y mae Covid-19 wedi effeithio arnynt fwyaf yn ystod y cyfnod adfer, yn benodol cymunedau anabl a BAME. Bydd y dyraniad ychwanegol o £1.1m i'r gyllideb yn helpu i ddatblygu'r agenda cydraddoldeb hiliol drwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Bydd y cynllun hwn yn rhoi camau ar waith a fydd yn cefnogi cymunedau BAME yng Nghymru ac yn gweithio tuag at gefnogi'r rhai sy'n cael eu tangynrychioli a/neu sy'n cael eu gwthio i'r cyrion a'u hallgáu, ac yn mynd i'r afael â phroblemau rhyngblethol. Bydd hefyd yn caniatáu i ni ddechrau rhoi sylw i rai argymhellion gan y Grŵp Cynghori BAME. Yn yr un modd, mae adroddiad ar yr effaith ar bobl anabl ar y gweill a bydd y camau gweithredu sy'n cael eu hargymell yn yr adroddiad hwn yr un mor bwysig yn ystod yr adferiad, a gellir dechrau rhoi sylw iddynt drwy weithgareddau a gefnogir gan y dyraniad ychwanegol o £1.1m i'r gyllideb.

Nawr bod y rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant nesaf wrthi'n cael ei datblygu, i ddechrau fis Hydref 2021, byddwn yn sicrhau ein bod yn llunio rhaglen olynol a fydd yn helpu i gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb a oedd wedi'u gosod a'u cyhoeddi yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn cysoni cyllid â'r camau gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol; y Cynllun Gweithredu ar Anabledd; Cenedl Noddfa; y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol; a Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Drwy ariannu sefydliadau sy'n cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig, rydym yn helpu i sicrhau mynediad tecach at wasanaethau a chyfleoedd yng Nghymru. Drwy gefnogi anghenion hirdymor pobl â nodweddion gwarchodedig, byddwn yn helpu i atal problemau tymor hwy drwy nodi'r materion sy'n effeithio ar bobl yn y cymunedau hyn yng nghamau cynnar y broses o lunio polisïau. Mae darpariaeth a chamau gweithredu'r rhaglenni a gefnogir gan y gyllideb Cydraddoldeb yn cyfrannu at yr Amcanion Llesiant, a fydd yn cyfrannu at waith Llywodraeth Cymru o gyfrannu i'r graddau mwyaf posibl at y Nodau Llesiant, yn benodol y nod 'Cymru sy'n fwy cyfartal' sy'n cynnwys cyfeiriad at anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol, a'r nod 'Cymru o gymunedau cydlynus'.

Yn 2021-22 rydym wedi uno'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cydraddoldeb a Ffyniant a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cydlyniant Cymunedol yn Llinell Wariant newydd – Llinell Wariant yn y Gyllideb Cydraddoldeb a Chydlyniant – a fydd yn darparu hyblygrwydd ychwanegol i gefnogi cymunedau ar hyd a lled Cymru. Yn 2021-22 mae'r prosiectau a ariennir o Gronfa Bontio'r UE (Cryfhau Cydlyniant Cymunedol £0.76m, Hawliau Dinasyddion yr UE £0.5m, a Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb a Chydlyniant Cymunedol £0.6m) wedi cael eu tynnu o'n llinellau sylfaen, sy'n golygu bod y gyllideb wedi gostwng. Roedd cyfnod penodol i gyllid y prosiectau hyn drwy Gronfa Bontio'r UE ac mae hyn yn cynrychioli diwedd cyfnod cyllido'r prosiectau hyn.

## Y Trydydd Sector

Mae gan y **trydydd sector** rôl sylweddol i'w chwarae os ydym am gyflawni ein nodau o adferiad teg, cyfiawn a gwyrdd. Mae mentrau cymdeithasol yn gallu galluogi twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol. Gellir sicrhau hyn drwy helpu'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur i gael swyddi, ac i greu swyddi yn eu rhinwedd eu hunain. Mae

gweithio gyda'r sector yn arwain at fuddion pellgyrhaeddol oherwydd mae hefyd yn galluogi lleisiau yn y gymuned i ddweud eu dweud, yn helpu i dargedu'r rhai sydd wedi'u difreinio, ac yn hybu gwell cydraddoldeb. Gellir mesur buddion hyn nid yn unig mewn termau economaidd ond mewn termau cymdeithasol hefyd, o ganlyniad i'r baich is ar wasanaethau statudol.

Mae'r trydydd sector a'r gwirfoddolwyr mae'n eu cefnogi wedi chwarae rôl hollbwysig yn ein hymateb i bandemig Covid-19, a bydd ganddynt rôl debyg i'w chwarae yn cefnogi unigolion a chymunedau yn ystod yr adferiad. Mae hyn wedi dangos pa mor bwysig yw'r sector i iechyd a llesiant ein cymunedau. Mae argyfwng Covid-19 a'r llifogydd yn 2020 wedi dangos pa mor bwysig yw cael trydydd sector cryf sy'n ffynnu. Bydd y trydydd sector yn hanfodol o ran ein galluogi i sicrhau nad yw'r anghydraddoldeb y mae'r pandemig wedi'u sbarduno yn gwreiddio.

O ganlyniad i'r amrywiaeth enfawr o wasanaethau statudol ac anstatudol a ddarperir i'n cymunedau gan y 30,000 o sefydliadau trydydd sector yng Nghymru, mae'n cyfrannu at y gwaith atal ym mhob categori. Mae seilwaith y trydydd sector (a ddarperir drwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru) yn darparu cymorth sy'n galluogi sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu amrywiaeth o ymyriadau cynnar fel presgripsiynu cymdeithasol a chymorth blynyddoedd cynnar. Mae'r seilwaith yn caniatáu i'r sefydliadau hyn weithredu drwy wella'r mynediad at hyfforddiant a'r arferion gorau o ran llywodraethu da. Yn aml, gall sefydliadau'r trydydd sector nodi anghenion cymorth y gymuned yn y dyfodol cyn bod y sector statudol yn ymwybodol o'r problemau, gan eu bod yn gweithio ar lawr gwlad. Mae'r seilwaith yn darparu'r mecanwaith drwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru i ganiatáu i'r sector ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach.

Yn ystod 2020-21 rydym wedi darparu dros £24m o gymorth i'r sector. Mae hyn wedi galluogi'r canlynol:

- Mae Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol wedi darparu bron i £7 miliwn, gan alluogi 156 o sefydliadau i gefnogi 6,262 o wirfoddolwyr a helpu 764,073 o fuddiolwyr. Daeth y gronfa i ben ym mis Awst a daeth Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol yn ei lle.
- Hyd yma (10 Rhagfyr) mae Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol wedi darparu grantiau gwerth £3.77m i 102 o sefydliadau. Mae'r grantiau hyn yn cefnogi 2,413 o wirfoddolwyr a'u nod yw helpu 198,704 o fuddiolwyr.
- Hyd yma (10 Rhagfyr) mae Cronfa Cydnerthedd y Trydydd Sector wedi darparu gwerth £5.4 miliwn o gymorth i 122 o elusennau a sefydliadau'r trydydd sector ledled Cymru.

Yn 2021-22 byddwn yn darparu £4.915m o gyllid craidd i gefnogi seilwaith y trydydd sector, sy'n cynrychioli **cynnydd o £0.669m**. Byddwn hefyd yn darparu **£3m yn ychwanegol** o gyllid yn 2021-22 i alluogi'r sector i barhau i gefnogi'r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Mae'r cyllid hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o'r saith nod llesiant. Mae'n cadw'r ddarpariaeth leol a gyflawnir gan sefydliadau bach, a datblygu sgiliau lleol o ran rheolaeth a thwf sefydliadau bach y trydydd sector (Cymru lewyrchus); mae'n annog cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd drwy gynnig gwasanaeth sy'n cefnogi datblygiad sefydliadau lleol (Cymru gydnerth); mae'n cyfrannu at amgylchedd lle mae gan bobl y cyfle i wireddu eu potensial drwy gyfrannu at gymdeithas sifil leol (Cymru sy'n fwy cyfartal); ac mae ganddo'r gallu i gyfrannu at sefydliadau sy'n cefnogi'r ddarpariaeth o gymunedau deniadol a diogel (Cymru o gymunedau cydlynus).

Bydd penderfyniadau ynghylch cefnogi gwirfoddoli yn cael eu gwneud gan ystyried yr anghenion 'tymor hir'. Gallai cefnogi datblygiad sefydliadau'r trydydd sector 'atal' neu

leddfu'r pwysau ar gyrff cyhoeddus, gan fod y sefydliadau hyn yn ymateb i anghenion y gymuned ac yn eu bodloni. Yn aml mae'r sefydliadau llai hyn wedi cael eu sefydlu gan y cymunedau maent yn eu gwasanaethau, neu drwy 'gydweithrediad' â'r cymunedau hynny.

**<u>Cronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol</u>**

Mae dyraniad o **£1m o gyfalaf trafodiadau ariannol** wedi cael ei wneud yn 2021-22 i Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Nod y gronfa yw rhoi benthyciadau o hyd at £500k i grwpiau cymunedol sy'n meddiannu asedau cymunedol er mwyn iddynt brynu a/neu wella'r asedau hyn er budd y gymuned leol.

Bydd y Gronfa Benthyciadau yn cyfrannu at gyflawni'r ymrwymiad yn Ffyniant i Bawb i helpu cymunedau lleol i gymryd perchnogaeth o asedau cymunedol a fydd yn dod â phobl at ei gilydd. Bydd y gronfa'n ddewis arall i gymunedau lle mae risg o golli asedau gwerthfawr. Bydd hyn yn gwneud hyn drwy gynnig benthyciad i'r grwpiau cymunedol hynny sy'n ddigon aeddfed i symud i ffwrdd o gyllid grant, ond nad ydynt mewn sefyllfa i fenthyg gan fenthycwyr masnachol eto.

Bydd y gronfa'n cyfrannu at rym, cydnerthedd, llesiant a chydlyniant cymunedau. Bydd yn helpu i atal gwasanaethau rhag cael eu colli lle bo grwpiau cymunedol yn gallu cymryd cyfrifoldeb dros redeg adeiladau cymunedol pwysig gyda chymorth y gronfa.

Mae'r trydydd sector wedi hen arfer gweithio mewn ffordd gydweithredol ac integredig. Bydd yn rhaid i grwpiau cymunedol sydd yn rhedeg adeiladau cymunedol weithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynigion cynaliadwy ar gyfer gweithrediad yr adeilad. Gall hyn gynnwys grwpiau cymunedol eraill a allai rannu, rhentu neu ddefnyddio'r lleoliad, ac awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill a allai ddarparu gwasanaethau yn y lleoliad. Mae'r dull gweithredu hwn yn diogelu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr dros y tymor hwy, gan ddefnyddio model cyflawni amgen sy'n caniatáu i'r awdurdod lleol arbed arian ac i'r gymuned ddiogelu a datblygu ased pwysig a gwasanaeth hanfodol.

Mae trosglwyddo asedau i'r gymuned yn grymuso'r gymuned honno wrth iddynt gynnwys pobl yn y broses o wneud penderfyniadau lleol, a cheisio eu barn ar ddatblygiad yr ased. Gall perchnogaeth gymunedol o adeiladau gwerthfawr â defnydd helaeth arnynt fod yn ffocws ar gyfer cydlyniant, a meithrin cydnerthedd cymunedol. Bydd y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yn darparu cyfleoedd i aelodau unigol o'r gymuned ddysgu, cymdeithasu, gwirfoddoli a gweithio.

Mae adeiladau sydd dan berchnogaeth y gymuned yn darparu gwasanaethau sy'n gallu atal problemau. Mae'r cyfleoedd i gymdeithasu ac i wirfoddoli yn helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig. Mae diogelu mynediad lleol at wasanaethau fel llyfrgelloedd, cyfleoedd hyfforddi a gwasanaethau iechyd lleol yn helpu i feithrin cydnerthedd. Mae adeiladau cymunedol yn fannau lle gall pobl ddod o hyd i gymorth a chefnogaeth, er enghraifft banc bwyd, cyngor ar ddyledion a budd-daliadau, a dosbarth ymarfer corff neu grŵp colli pwysau. Gall y gweithgareddau hyn atal problemau rhag dwysáu neu waethygu yn aml. Mae hyn yn osgoi'r angen am ymyriadau mwy dwys.

Bydd y Gronfa Benthyciadau yn helpu grwpiau cymunedol i wella'r adeiladau hyn. Mae gan lawer ohonynt, yn enwedig y rhai a oedd dan berchnogaeth y sector cyhoeddus o bosibl, lwyth o waith cynnal a chadw wedi cronni. Gallai'r gwelliannau hyn gynnwys gwell inswleiddio, system gynhesu fwy effeithlon, technoleg newydd fel paneli solar,

ffenestri gwydr triphlyg, a systemau casglu dŵr glaw. Mae'r gwelliannau hyn yn cefnogi'r agenda datgarboneiddio ac yn darparu adeiladau cymunedol sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn ariannol dros y tymor hir.

**Glasbrintiau ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a Throseddwyr Benywaidd**

Mae gwaith wedi cael ei wneud i ddatblygu cynigion ar sut byddai system gyfiawnder wahanol ac ar wahân yn gweithredu yng Nghymru. Cafodd y Glasbrint Troseddwyr Benywaidd ei ddatblygu ar y cyd gan Wasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ymyrryd yn gynnar ac atal; gan ystyried sut gallwn wyro pobl ymhellach oddi wrth drosedd yn y lle cyntaf, ond lle bo rhaid i ni weithio gyda throseddwyr, ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd gyfannol ac adferol. Cafodd glasbrint ar wahân ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ei ddatblygu ar y cyd rhwng swyddogion a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, gan adeiladu ar themâu allweddol Adolygiad Charlie Taylor o System Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, ond yn canolbwyntio ar y system fel y mae yng Nghymru. Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru a'r Swyddfa Gartref yn bartneriaid allweddol yn y gwaith hwn hefyd.

Mae'r ddau Lasbrint yn fwriadol uchelgeisiol ac yn nodi nifer o argymhellion. Bydd llawer ohonynt yn cael effaith ar wasanaethau datganoledig mewn amrywiaeth o bortffolios gweinidogol (iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, a thai). Y bwriad yw y bydd yr argymhellion a nodir yn y Glasbrintiau'n cael eu cysoni â'r blaenoriaethau cyfredol yn y portffolios dan sylw, er mwyn darparu dull gweithredu cydlynol a chydweithredol ar gyfer polisi cyfiawnder sy'n bodloni anghenion Cymru.

Yn 2021-22 rydym wedi dyrannu £0.5m i fwrw ymlaen â gwaith y Glasbrintiau. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl parhau i gefnogi Dull System Gyfan y Cynllun Braenaru Menywod, y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25, y prosiect 'Ymweld â Mam', a'r gwaith o gyflwyno hyfforddiant sy'n seiliedig ar drawma i bob Tîm Troseddwyr Ifanc yng Nghymru. Bydd y rhaglen waith hon yn helpu i wyro menywod a phlant oddi wrth y system cyfiawnder troseddol ac yn helpu i gefnogi adsefydlu, ac i atal aildroseddu.

Mae'r ddau Lasbrint yn cyfrannu at y blaenoriaethau trawsbynciol yn y strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb drwy ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn lleihau'r achosion o droseddu, a gwyro pobl oddi wrth y system cyfiawnder troseddol gan leihau'r risg o droseddu ymysg cymunedau, unigolion a'u teuluoedd. Drwy sicrhau bod y dull system gyfan sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys lefel briodol o gymorth cofleidiol, gan gynnwys cymorth camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl i'r rhai sydd wedi profi trawma a allai arwain at droseddu, rydym yn gallu cefnogi'r flaenoriaeth Iach ac Egnïol hefyd. Mae'r flaenoriaeth Uchelgeisiol ac yn Dysgu hefyd yn cael sylw drwy ddarparu lefel briodol o addysg a dysgu i'r rhai yn y system addysg ym mhob lleoliad (gan gynnwys lleoliadau nad ydynt yn rhai prif ffrwd), er mwyn lleihau'r achosion o wahardd o'r ysgol a allai wneud pobl ifanc yn agored i niwed ac mewn perygl o ddod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cael sylw hefyd. Mae gan y Glasbrintiau ffocws hirdymor drwy dorri cylchau troseddu rhyng-genedlaethol, gan greu cymdeithas decach â chanlyniadau mwy cyfartal i bawb. Mae diogelu menywod a phlant, a mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd ymddygiad troseddol, yn ataliol eu natur gyda dull cydweithredol wedi'i sefydlu er mwyn cyflenwi gwasanaethau trawsnewidiol. Rydym wedi gweithio'n galed i ddeall y cysylltiadau ar draws meysydd polisi a sut gall y dull hwn wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein cymunedau ac wedi datblygu ein dull o gyflenwi

gwasanaethau effeithiol drwy gynnwys y rhai yr effeithir arnynt (dioddefwyr, menywod, plant a chymunedau).

## Trechu Tlodi (gan gynnwys Lles)

Mae'n glir fod y pandemig wedi cael effaith anghymesur ar y rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Felly, un o brif themâu'r gyllideb hon yw trechu tlodi. Mae llinellau sylfaen y cyllidebau refeniw wedi cael eu pennu yn ôl sefyllfa Cyllideb Derfynol 2020-21, ac mae'r dyraniadau a wnaed yng nghyllideb ddrafft y flwyddyn ddiwethaf i drechu tlodi wedi cael eu pennu fel y llinell sylfaen a byddant yn parhau yn 2021-22. Roedd hyn yn cynnwys dyraniadau yn ein portffolios ar gyfer tlodi mislif, urddas mislif, y rhaglen Cynhwysiant Ariannol a'r Rhaglen Credydau Amser. Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael ei arwain gan y galw a bydd yn parhau yn 2021-22 hefyd. Mae **dyraniad newydd o £1.1m** hefyd wedi'i wneud i atgyfnerthu gwasanaethau cynghori ac mae **dyraniad o £1.5m** mewn cyfalaf trafodiadau ariannol wedi'i wneud i gefnogi cynhwysiant ariannol.

O ran Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd, rydym yn parhau i helpu plant o aelwydydd incwm isel a Phlant sy'n Derbyn Gofal i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n eu hatal rhag gwireddu eu llawn botensial drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Rydym hefyd wedi parhau â'n cefnogaeth i brydau ysgol am ddim, Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol, a'r Rhaglen Llwgu yn ystod y Gwyliau.

### Gwasanaethau Cynghori

Rydym yn gwybod y bydd Covid-19 a Phontio o'r UE yn cael effaith economaidd anghymesur ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, sydd eisoes dan anfantais. Drwy gefnogi gwasanaethau cynghori, byddwn yn parhau i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl drwy sicrhau bod y grwpiau hynny'n cael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddatrys eu problemau o ran dyled, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles. Mae canlyniadau ymyriadau gwasanaethau cynghori yn mynd i'r afael yn rhagweithiol â thlodi ac anghydraddoldeb, sef blaenoriaethau allweddol yn y cynlluniau ailadeiladu ac adfer.

Er bod Covid-19 yn effeithio ar bawb, mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir y bydd y dirywiad economaidd disgwyliedig yn cael effaith ariannol ddifrifol ar y bobl fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gwasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl yn gweithio yn nwfn yng nghalon cymunedau (drwy eu dyluniad a oedd yn hyrwyddo cydweithio ymysg darparwyr a ariennir), gan sicrhau bod y rhai sydd fwyaf mewn angen yn cael gafael ar ein gwasanaethau. Er enghraifft, yn 2020, roedd nodwedd warchodedig gan 80% o'r bobl a ddefnyddiodd wasanaethau.

Mae pobl o grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn methu'n gyson â hawlio eu hawl gywir i fudd-daliadau lles. O ystyried yr heriau economaidd o'n blaenau yn 2021-22, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hawl lawn i gymorth ariannol gan systemau budd-daliadau Cymru a'r DU. Mae helpu pobl i hawlio budd-daliadau lles yn weithgaredd allweddol a gyflawnir drwy'r Gronfa Gynghori Sengl a rhwng mis Ionawr 2020 a mis Medi 2020, cefnogwyd pobl i hawlio dros £20 miliwn o incwm ychwanegol drwy fudd-daliadau lles.

Drwy **fuddsoddi £1.1m arall** mewn gwasanaethau cynghori, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi mentrau costeffeithiol sy'n chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o drechu tlodi. Er enghraifft, mae ymysg canlyniadau ymyriadau gwasanaethau cynghori mae cefnogi gwelliannau i iechyd a llesiant unigolion, i'w cyflogadwyedd ac i'w sefyllfa ariannol. Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn caniatáu i ni wella a chynyddu darpariaeth y gwasanaethau cynghori Cynyddu Incwm a Gwahaniaethu mewn Cyflogaeth a gyflawnir drwy'r Gronfa Gynghori Sengl, er mwyn targedu cyngor a chymorth i grwpiau â nodweddion gwarchodedig sy'n llai tebygol o hawlio eu hawl gyfreithiol i fudd-daliadau lles ac sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ddioddef arferion gwahaniaethol cyflogwyr. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd yr argyfwng economaidd y byddwn yn ei wynebu yn 2021-22 yn effeithio drymaf ar y grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi tynnu sylw at y ffaith fod pandemig Covid-19 yn cynyddu'r posibilrwydd o ymddygiad gwahaniaethol gan gyflogwyr, mwy byth wrth i'r argyfwng economaidd ddwysáu efallai.  Felly, mae'r rhain yn wasanaethau hynod o bwysig ar gyfer darparu cyllid ychwanegol yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Rydym yn gwybod mai pobl agored i niwed sy'n wynebu'r nifer uchaf o broblemau lles cymdeithasol ac mai nhw sy'n wynebu effeithiau mwyaf difrifol y problemau hyn. Dyma pam ein bod wedi mynnu bod darparwyr cyngor y Gronfa Gynghori Sengl yn sicrhau bod pobl o grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn defnyddio eu gwasanaethau. Yn ystod 2020, roedd 80% o'r bobl (a 59% o'r rhain yn fenywod) a ddefnyddiodd wasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl yn perthyn i grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Dyluniodd Llywodraeth Cymru'r Gronfa Gynghori Sengl i ganolbwyntio'n gryf ar weithgareddau ataliol. Rydym nawr yn ariannu model cyflawni gwasanaethau arloesol sy'n cynnwys partneriaid Cyngor a Mynediad. Mae'r rhain yn targedu mynediad cynnar at gyngor ymysg pobl sy'n dueddol o beidio â gofyn am help nes bod problem wedi cyrraedd ei hanterth – lle mae angen ymyriadau mwy costus er mwyn ei datrys.

Mae ein gwasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl hefyd yn cynnig dull grymuso, lle mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau eu cynlluniau gweithredu eu hunain, wedi'u datblygu ar y cyd, sy'n cynnwys y camau gweithredu byddant yn eu cymryd i ddatrys eu problem(au). Mae'r dull hwn yn cynyddu gwybodaeth, gallu a sgiliau defnyddwyr gwasanaethau, gan eu helpu i atal problemau lles cymdeithasol rhag codi eto yn y dyfodol.

Mae gwasanaethau cynghori yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni nifer o'r Nodau Llesiant, gan gynnwys Cymru lewyrchus (cynyddu incwm), Cymru gydnerth (grymuso pobl i ddelio â'u problemau eu hunain), Cymru iachach (lleddfu'r straen mae problemau heb eu datrys yn ei achosi), a Chymru sy'n fwy cyfartal (mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hyrwyddo mynediad at gyfiawnder cymdeithasol).

Cafodd y Gronfa Gynghori Sengl ei dylunio i ariannu darparwyr a oedd yn cynnig modelau cyflawni gwasanaethau a oedd yn cwmpasu'r pum ffordd o weithio. Felly, mae Llywodraeth Cymru nawr yn ariannu modelau cydweithredol o gyflawni gwasanaethau cynghori, sy'n cynnig gwasanaethau integredig ac ataliol sy'n datrys problemau pobl ac yn eu helpu i rwystro problemau lles cymdeithasol rhag codi yn y dyfodol.

**<u>Cynhwysiant Ariannol</u>**

Mae'r **Gronfa Cymorth Dewisol** fel cronfa grantiau wedi'i arwain gan y galw yn rhan allweddol o'r gwaith o drechu tlodi. Mae'r Gronfa'n cynnig taliadau arian parod neu gymorth mewn nwyddau (eitemau hanfodol y cartref a nwyddau gwyn), gan ddarparu cymorth brys i bobl i ddiogelu eu hiechyd a'u llesiant. Yn 2021-22 rydym yn cynnal ein cefnogaeth i'r Gronfa ar y lefelau a ddarparwyd yng Nghyllideb Derfynol 2020-21.

Ers dechrau'r Gronfa Cymorth Dewisol yn 2013 mae dros 419,000 o ddyfarniadau wedi'u gwneud, cyfanswm o dros £71.1m o gyllid grant i'r rhai mwyaf agored i niwed. Yn 2021-22 bydd y Gronfa'n parhau i roi cymorth i'r rhai mewn angen drwy ddau fath o grant nad oes yn rhaid eu had-dalu. Mae'r Taliad Cymorth mewn Argyfwng yn helpu gyda chostau hanfodol ar ôl argyfwng fel colli swydd neu oedi mewn budd-daliadau, ac yn talu am gostau byw uniongyrchol fel cost bwyd a thanwydd i'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol difrifol. Mae Taliad Cymorth i Unigolion yn helpu'r rhai y mae angen gofal arnynt i fyw'n annibynnol yn hytrach na mynd i sefydliad fel cartref gofal neu ysbyty, neu aros mewn sefydliad o'r fath. Oherwydd bod pwysau Covid-19 yn dal i effeithio ar unigolion, mae unigolion a theuluoedd ledled Cymru yn troi at y gronfa am gymorth ychwanegol i'w helpu gyda rhywfaint o'r heriau a'r pwysau ariannol sy'n eu hwynebu.

Yn ystod 2020-21 mae pwysau Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar unigolion a theuluoedd ledled Cymru, sy'n troi mwy a mwy at y gronfa am gymorth ychwanegol i'w helpu gyda rhywfaint o'r heriau a'r pwysau ariannol sy'n eu hwynebu. Mewn ymateb i Covid-19, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £13.9m yn ychwanegol yn y Gronfa Cymorth Dewisol yn 2020-21 i gefnogi'r galw cynyddol ar y Gronfa, gan gynnwys y cynnydd sylweddol mewn hawliadau. Roedd y cyllid ychwanegol hwn hefyd yn cefnogi'r penderfyniad i lacio rheolau'r Gronfa o ran nifer ac amledd dyfarniadau'r Taliad Cymorth mewn Argyfwng o ganlyniad i Covid-19 rhwng 1 Mai 2020 a 31 Mawrth 2021. Rhoddodd hyn gymorth hollbwysig i unigolion a theuluoedd ledled Cymru sydd ar incymau isel ac yn wynebu caledi ariannol difrifol. Rhwng 18 Mawrth 2020, pan ddechreuodd gwaith cofnodi Covid-19, a 30 Tachwedd 2020 cafodd cyfanswm o 144,253 o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng y Gronfa eu gwneud, gan ddod i gyfanswm o £9.3m. O'r rhain, roedd 116,247, sef cyfanswm o £7.5m, yn datgan Covid-19 fel achos.

Mae dadansoddiad o daliadau argyfwng Covid-19 yn dangos mai'r mwyafrif llethol sy'n eu defnyddio yw pobl a oedd yn wynebu caledi yn barod a bod hynny wedi'i ddwysáu o ganlyniad i'r pandemig. Gofynnwyd i'r Adran Gwaith a Phensiynau gyfeirio hawlwyr newydd at y Gronfa Cymorth Dewisol ond mae nifer y bobl sy'n ddi-waith ers cyfnod byr ac yn defnyddio'r Gronfa yn dal yn isel. Gan fod nifer o fusnesau'n dibynnu ar gynllun Ffyrlo'r DU i dalu eu staff, rhagwelir y bydd cynnydd sylweddol yn y swyddi sy'n cael eu dileu, y busnesau sy'n cau ac mewn diweithdra, a rhagor o bobl yn bwriadu hawlio Credyd Cynhwysol. Yn yr amgylchiadau hyn disgwylir y bydd rhai unigolion yn troi at y Gronfa am gymorth.
Bydd cymorth pellach i'r Gronfa yn cael ei ystyried fel rhan o'r ystyriaeth o ddyraniadau i'w gwneud yn y Gyllideb Derfynol o gronfa wrth gefn Covid-19.

Bydd sicrhau bod cynhwysiant ariannol yn rhan flaenllaw o gynlluniau gwario Llywodraeth Cymru yn helpu unigolion i wella eu sefyllfa ariannol a'u llesiant cyffredinol, gan atal rhagor o ymyriadau costus i bwrs y wlad. Mae cynhwysiant ariannol yn gwneud cyfraniad hollbwysig i'r blaenoriaethau sgiliau a chyflogadwyedd, iechyd meddwl a thai a nodir yn Ffyniant i Bawb. Mae dyled a rheoli arian yn wael yn gallu effeithio ar allu person i gadw swydd ac mae cysylltiadau wedi'u sefydlu bod problemau o ran dyled, tai a lles yn gallu arwain at salwch meddwl. Mae ein gwaith cynhwysiant ariannol yn helpu dinasyddion i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas, i baratoi ar gyfer cyflogaeth a chadw

swyddi, ac yn lleihau'r risg o brofiadau niweidiol i blant drwy liniaru amrywiaeth o ffactorau unigol, perthynol, cymunedol a chymdeithasol i rieni/gofalwyr.

Mae'r gwaith cynhwysiant ariannol yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Gronfa'n cyfrannu at nifer o'r nodau, gan gynnwys "Cymru sy'n fwy cyfartal" a "Chymru iachach". Mae'r cymorth a ddarperir yn helpu'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ariannol i gael mynediad at gynhyrchion ariannol nad ydynt yn gallu cael mynediad atynt yn rhywle arall, gan gyfrannu at Gymru lewyrchus, gydnerth ac iachach sy'n fwy cyfartal. Mae hefyd yn gymorth ataliol, gydag undebau credyd yn hyrwyddo arferion cynilo a mynediad at fenthyciadau moesol i bobl sydd, heb wasanaeth undeb credyd, yn debygol o ddefnyddio benthycwyr uchel eu llog.

Er bod undebau credyd yn ymdrechu i ddarparu credyd ac arbedion fforddiadwy i bawb, nid oes modd i rai pobl fforddio benthyg yn gyfrifol ac yn deg gan undebau credyd neu ddarparwyr cyllid cymunedol eraill, a hynny o ganlyniad i'w sefyllfa ariannol sydd eisoes yn fregus, gan gynnwys gorddyled sylweddol. Mae'n bryderus y byddant yn troi'n aml at gredyd uchel ei gost a benthyg anghyfreithlon, gan ddwysáu eu sefyllfa sydd eisoes yn fregus. Oherwydd hynny, mae £0.5m wedi'i neilltuo i dreialu cynllun benthyciadau heb log, gan weithio gyda Fair4All Finance a Thrysorlys Ei Mawrhydi i brofi a yw'n bosibl i bobl nad ydynt yn gallu fforddio benthyg gan ddarparwyr credyd fforddiadwy ar hyn o bryd gael mynediad at gredyd cyfrifol sydd yn fforddiadwy iddynt.

Mae cefnogi'r ddarpariaeth o gredyd fforddiadwy yn y ffordd hon yn enghraifft o wariant ataliol. Bydd hyrwyddo benthyg yn deg ac yn gyfrifol, lle mae pobl dim ond yn benthyg faint maent yn gallu fforddio ei ad-dalu, yn helpu i leihau'r lefelau gorddyled yn y tymor hir. Bydd yn cael effaith sylweddol iawn ar bobl a fydd yn gallu, drwy gael gafael ar y cynnyrch ariannol cywir am bris teg, leddfu eu pryderon ariannol, gwella eu llesiant ariannol, a dechrau eu taith ariannol drwy gael eu hannog i arbed ychydig ochr yn ochr â'u benthyciadau, a fydd yn bosibl drwy gael gafael ar gredyd isel ei gost, yn hytrach nag uchel ei gost.

**Undebau Credyd**

I gefnogi cynhwysiant ariannol, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i undebau credyd i gyflawni amrywiaeth o brosiectau yn ein cymunedau. Mae'r prosiectau hyn yn hybu twf a chyrhaeddiad, gan ganiatáu i ragor o bobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol elwa ar gyllid fforddiadwy. Mae'r prosiectau'n cynnwys twf y gyflogres i gefnogi cydnerthedd ariannol ac annog gweithwyr i gael digon o gynilion wrth gefn, prosiectau cynilo mewn ysgolion a charchardai, gwaith allgymorth yn y gymuned i hybu aelodaeth, a phrosiect marchnata cydweithredol sy'n codi ymwybyddiaeth drwy gyfryngau cymdeithasol. Mewn ymateb i bandemig Covid-19, cafodd **cyfalaf ychwanegol o £1m** ei sicrhau i gefnogi undebau credyd gyda'u sefyllfaoedd cyfalaf yn ystod 2020-21 er mwyn iddynt allu parhau i helpu pobl i gael gafael ar gredyd fforddiadwy. Mae undebau credyd wedi cael eu gwahodd i wneud cais am y cymorth hwn.

Yn 2021-22 rydym wedi **dyrannu £1m yn ychwanegol** o gyfalaf trafodiadau ariannol i undebau credyd, sy'n dangos ein cefnogaeth i undebau credyd a bod cynhwysiant ariannol yn ymrwymiad allweddol. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at y broblem o allgáu ariannol ac wedi amlygu'r angen am gredyd fforddiadwy sy'n hygyrch ac yn briodol i bawb. Bydd cynyddu cynhwysiant ariannol drwy wella mynediad at gredyd fforddiadwy yn gwella nifer o agweddau ar fywyd, iechyd a llesiant pobl yn sylweddol.

**Cynhwysiant Digidol**

Gall datblygu sgiliau digidol cymunedau arwain at ragor o gyfleoedd economaidd, cymdeithas fwy cyfartal a gwell cydlyniant cymunedol. Bydd sicrhau cymdeithas sy'n fwy cynhwysol yn ddigidol yn helpu i gynyddu cyfraniad Gweinidogion Cymru at gyflawni pob un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan wneud Cymru'n wlad lewyrchus, gydnerth, iachach a mwy cyfartal gyda chymunedau sydd wedi'u cysylltu'n dda, a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Mae cyflenwi pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol â'r sgiliau digidol sylfaenol i ddefnyddio technoleg yn eu galluogi i elwa ar holl fanteision bod ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gwell cyfleoedd dysgu; gwneud cais am swyddi; rheoli cyllid drwy adnoddau cyllidebu ar-lein neu fancio ar-lein; cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu; chwilio am awgrymiadau ar gyfer ffordd iach o fyw a'u rhannu; a chael gafael ar wasanaethau cyhoeddus hollbwysig.

Mae'r pandemig wedi amlygu pwysigrwydd cynhwysiant digidol ar draws y Llywodraeth a rhanddeiliaid ehangach, gan gydnabod yr angen i helpu dinasyddion i allu cael gafael ar wasanaethau hollbwysig sy'n aml yn cael eu darparu o bell yn ystod y pandemig. O ganlyniad, rydym wedi cynnal y gyllideb Cynhwysiant Digidol yn 2021-22 ar £1.25m (mae dyraniad bach nad yw'n arian parod o £149k wedi cael ei wneud i ddarparu ar gyfer dibrisiant asedau a brynwyd yn ystod 2020-21). Bydd sicrhau bod cynhwysiant digidol yn rhan flaenllaw o gynlluniau gwario Llywodraeth Cymru fel rhan o drawsnewid digidol ehangach yn helpu unigolion i ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus digidol, gan gynnwys cymorth i gael a chadw swydd, i gael gafael ar wasanaethau iechyd ac i wella llesiant cyffredinol, gan atal ymyriadau mwy costus i bwrs y wlad.

**Grant Plant a Chymunedau**

Mae'r rhaglenni yn y Grant Plant a Chymunedau yn cyfrannu at ein hymrwymiadau i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Mae'r grant yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar ac atal, ac mae'r rhaglenni'n cefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn angen, yn enwedig plant a theuluoedd, a'r rhai sy'n ceisio cael swydd. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn flaenoriaeth allweddol ac yn un o'r elfennau canolog o adferiad Covid-19. Mae cadw llinell hon y gyllideb ar £135.4m yn golygu bod modd parhau darparu'r cymorth hwn i'r plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Bwriad y Grant Plant a Chymunedau yw mynd i'r afael ag anghenion cymorth y plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas drwy amrywiaeth o ddulliau ymyrryd yn gynnar, atal, a chefnogi. Eu nod yw lleihau neu ddileu anfanteision pobl agored i niwed i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag eraill, ac felly i gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r gwaith o ddatblygu'r dull Cysoni Cyllid ei hun wedi cael ei gyflawni gyda chyfraniad agos awdurdodau lleol, a oedd yn gweithio ar y cyd â'i gilydd ac â Llywodraeth Cymru.

**Diwygio Lles**

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wrthi'n symud hawlwyr o fudd-daliadau blaenorol i Gredyd Cynhwysol. Dechreuodd hyn ym mis Gorffennaf 2019 ac mae disgwyl cwblhau'r broses erbyn mis Rhagfyr 2023.

Mae argyfwng Covid-19 wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl yng Nghymru sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. Mae ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos bod 271,890 o bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru ym mis Hydref 2020, o'i gymharu â 150,527 ym mis Chwefror 2020.

Ym mis Awst 2020, roedd 221,190 o aelwydydd yng Nghymru ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru, o'i gymharu â thua 400,000 o aelwydydd pan fydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn.

O ganlyniad i barhad y gwaith o gyflwyno Credyd Cynhwysol, ym mis Ebrill 2019 gwnaethom gyflwyno trothwy incwm net blynyddol o £7,400 i hawlwyr Credyd Cynhwysol sy'n dymuno hawlio prydau ysgol am ddim i'w plant. Gwnaethom ddarparu amddiffyniad wrth bontio hefyd, sy'n golygu bod disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd bod eu teulu'n cael Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau blaenorol cymwys pan gyflwynwyd y trothwy, neu unrhyw hawlwyr newydd sy'n cael prydau ysgol am ddim yn ystod y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol, wedi'u diogelu yn erbyn colli prydau ysgol am ddim pan fydd Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ar draws Cymru, hyd yn oed os bydd eu cymhwysedd yn newid. Pan fydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn, bydd unrhyw hawlwyr presennol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd bellach (oherwydd eu bod yn ennill uwchben y trothwy) yn parhau i gael amddiffyniad hyd nes diwedd cyfnod addysg presennol y disgybl (er enghraifft nes eu bod yn gorffen y cyfnod cynradd neu'r cyfnod uwchradd).

Roeddem wedi darparu £7 miliwn yn ychwanegol drwy'r Setliad yn 2019-20 i dalu am y cynnydd disgwyliedig yn nifer y plant a fydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r cynnig amddiffyn wrth bontio. Mae hyn ar ben y £5 miliwn o gyllid yr oeddem wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol yn 2018-19, fel grant penodol yn y MEG Addysg, i dalu am gostau prydau ysgol am ddim ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno Credyd Cynhwysol. Ni wnaed unrhyw newidiadau fel rhan o gyllideb ddrafft y flwyddyn ddiwethaf, felly arhosodd y £7m yn y setliad.  Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u cynnig ar gyfer 2021-22 gan ein bod yn dal yn aros am fodel wedi'i ddiweddaru gan yr Adran Addysg.

## Gwaith ar y Cyd rhwng y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, y Pwyllgor Cyllid, a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Y llynedd, gwnaethom gyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb am y tro cyntaf fel rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2020-21.  Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein gweledigaeth, gan gynnwys yr uchelgeisiau tymor byr a thymor canolig dros y pum mlynedd nesaf, i wella prosesau ein cyllidebau a'n trethi.

Mae hyn yn cynnwys ein dull gweithredu ar gyfer datblygu sut awn ati i asesu effaith penderfyniadau cyllidebu yn unol â'n hymrwymiad i ddatblygu ein dull gweithredu yn barhaus. Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod y camau rydym wedi'u cymryd ar ein taith a sut rydym wedi adeiladu, neu'n bwriadu adeiladu, ar y gwaith hwn yn y dyfodol.

Rydym wedi cyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi'i ddiweddaru ochr yn ochr â'n Cyllideb Ddrafft 2021-22, sy'n cyflwyno ein huchelgeisiau pum mlynedd treigl yn ogystal â chrynodeb o'n cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau arfaethedig o Gynllun y llynedd yn ystod 2020.

Mae hyn wedi cynnwys y dulliau newydd rydym wedi'u harchwilio er gwaethaf y pandemig i'n helpu i benderfynu pa ddulliau eraill gallem eu defnyddio i gyd-fynd ag Asesiad Effaith Integredig Strategol y gyllideb. Er enghraifft, ar ôl ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y llynedd, rydym wedi datblygu model effaith ddosbarthiadol ar gyfer dadansoddi gwariant cyhoeddus yng Nghymru ac wedi cyhoeddi ein dadansoddiad cychwynnol fel rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2021-22.

Ym mis Ionawr 2020, dyfarnwyd y contract i ymchwilio i gryfhau a chynyddu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru i gonsortiwm yn cynnwys Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor, Diverse Cymru ac Young Wales. Nod yr ymchwil hwn yw archwilio dulliau o gryfhau a chynyddu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, a gwneud argymhellion ar gyfer diwygiadau i ddeddfwriaeth, polisi, canllawiau neu ddiwygiadau eraill er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Roedd methodoleg yr ymchwil yn cynnwys cyfweliadau a gweithdai â sefydliadau rhanddeiliaid dros lwyfan ar-lein, cynnal grwpiau ffocws profiad go iawn gyda phlant/pobl ifanc ac oedolion â gwahanol nodweddion gwarchodedig, a dosbarthu holiadur. Mae'r tîm ymchwil wrthi'n dadansoddi'r data a gasglwyd. Y bwriad yw cynnal profion maes ar y canfyddiadau/argymhellion drafft yng nghanol/diwedd mis Rhagfyr 2020. Bydd yr adroddiad terfynol, yn cynnwys y prif ganfyddiadau ac argymhellion, yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Chwefror 2021.

Ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2021-22, byddwn yn crynhoi effaith ein penderfyniadau gwario fel rhan o'r prif naratif, ac yn cyhoeddi astudiaethau achos ar effaith penderfyniadau gwario penodol.

Ein polisi arferol yw cyflwyno asesiadau o effaith a gyhoeddir ochr yn ochr â'r polisi y maent yn cyfeirio ato.  Yn ystod y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys adran yn benodol ar asesiadau o effaith sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws ar adran coronafeirws ein gwefan – https://llyw.cymru/asesiadau-o-effaith-coronafeirws  Ein barn ar hyn o bryd yw bod rhoi asesiadau o effaith yn yr un ardal o'r wefan â'r pwnc y maent yn ymdrin ag ef yn adlewyrchu eu rôl hollbwysig fel rhan o'r broses llunio polisïau ac yn hybu tryloywder, a bod hynny'n well na darparu asesiadau o effaith mewn un lleoliad canolog.  Rydym wrthi'n cynnal adolygiad ehangach o effeithiolrwydd ein dull gweithredu ar gyfer asesu effaith wrth ddatblygu polisïau ac o gyfleoedd i barhau i'w wella. Mae'r pandemig wedi oedi'r gwaith hwn ond bydd yn dylanwadu arno hefyd. Mae'n bosibl y bydd datblygiad yr arferion gorau wrth asesu effaith yn effeithio ar ein dull gweithredu yn y dyfodol o ran sut a ble rydym yn rhannu asesiadau o effaith.

O ran yr Asesiad Integredig o'r Effaith, ein dull gweithredu presennol yw cynnwys yr holl asesiadau o effaith gyda'i gilydd mewn un adnodd.  Erbyn hyn mae gennym dros ddwy flynedd o brofiad o ddefnyddio'r adnodd (dan amodau arferol llunio polisïau ac yn yr amgylchiadau anarferol y mae polisïau wedi cael eu datblygu yn ystod y pandemig). Cafodd y gwaith o adolygu'r Asesiad Integredig o'r Effaith ei oedi ar ddechrau'r pandemig ond mae newydd ailddechrau, a bydd yn rhan o'r gwaith ehangach yn cefnogi galluogrwydd Llywodraeth Cymru o ran llunio polisïau.  Rydym wrthi'n cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r adnodd Asesiadau Integredig o'r Effaith sy'n canolbwyntio ar wella'r broses o lunio polisïau ac ar gynyddu tryloywder.  Bydd hefyd yn golygu ymgysylltu â nifer o randdeiliaid allanol, gan gynnwys y Comisiynwyr statudol ac aelodau o Grŵp Cynghori'r Gyllideb ar Gydraddoldeb.

**ATODIAD A**

| EXTRACT FROM HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG) | | | |
|---|---|---|---|
| **RESOURCE BUDGET** | | | |
| **BEL** | **2020-21 Final Budget £000s** | **Changes £000s** | **New Plans Draft Budget 2021-22 £000s** |
| Local Govt General Revenue Funding | 3,399,147 | 210,395 | 3,609,542 |
| City & Growth Deals | 10,000 | -10,000 | 0 |
| Police General Revenue Funding | 86,600 | 1,750 | 88,350 |
| Non-Domestic Rates Rates Relief | 27,700 | 0 | 27,700 |
| Local Govt PFI Revenue Consequences | 3,124 | -132 | 2,992 |
| Transformation & Legislation | 8,857 | -1,818 | 7,039 |
| Non-Domestic Rates Collection Costs | 5,172 | 0 | 5,172 |
| Emergency Financial Assistance Scheme | 1 | 23,270 | 23,271 |
| **Total:Funding Support for Local Government Action** | **3,540,601** | **223,465** | **3,764,066** |
| Valuation Office Agency Services | 8,561 | 0 | 8,561 |
| Valuation Tribunal for Wales | 1,039 | 0 | 1,039 |
| Local Taxation Research & Analysis | 100 | 0 | 100 |
| **Total: Valuation Services Action** | **9,700** | **0** | **9,700** |
| Sponsorship of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales | 598 | 0 | 598 |
| Expenditure to Promote Local Democracy | 126 | 0 | 126 |
| **Total: Building Local Democracy Action** | **724** | **0** | **724** |
| Improvement & Support | 350 | 0 | 350 |
| **Total: Local Government Improvement Action** | **350** | **0** | **350** |

| EXTRACT FROM HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG) | | | |
|---|---|---|---|
| **RESOURCE BUDGET** | | | |
| **BEL** | **2020-21 Final Budget £000s** | **Changes £000s** | **New Plans Draft Budget 2021-22 £000s** |
| Academi Wales | 1,134 | 0 | 1,134 |
| **Total: Academi Wales Action** | **1,134** | **0** | **1,134** |
| Community and Town Councils | 144 | 0 | 144 |
| Public Services Boards | 530 | 0 | 530 |
| **Total: Supporting Collaboration and Reform Action** | **674** | **0** | **674** |
| Supporting Communities | 483 | 0 | 483 |
| Children and Communities Grant | 135,442 | 0 | 135,442 |
| Housing Support Grant | 126,763 | 40,000 | 166,763 |
| **Total: Early Intervention, Prevention & Support Action** | **262,688** | **40,000** | **302,688** |
| Financial Inclusion | 13,202 | 0 | 13,202 |
| Digital Inclusion | 1,250 | 149 | 1,399 |
| **Total: Financial Inclusion and Digital Inclusion Action** | **14,452** | **149** | **14,601** |
| Fire & Rescue Services | 10,425 | -2,000 | 8,425 |
| Fire & Rescue Services - Communication Systems | 1,765 | 2,150 | 3,915 |
| Community Fire Safety | 848 | 0 | 848 |
| **Total: Fire & Rescue Services and Resilience Action** | **13,038** | **150** | **13,188** |
| Homelessness | 17,907 | 4,000 | 21,907 |
| **Total: Homelessness Prevention Action** | **17,907** | **4,000** | **21,907** |
| Housing Policy | 5,429 | -545 | 4,884 |
| **Total: Housing Policy Action** | **5,429** | **-545** | **4,884** |
| Building Safety* | **0** | **545** | **545** |
| **Building Safety** | **0** | **545** | **545** |
| Housing Finance Grant | 13,100 | 0 | 13,100 |
| **Total: Increase the Supply and Choice of Affordable Housing Action** | **13,100** | **0** | **13,100** |
| Housing Programme Revenue Funding | 1,073 | 0 | 1,073 |
| **Total: Housing Revenue Funding Action** | **1,073** | **0** | **1,073** |
| Regeneration | 560 | 0 | 560 |
| Cardiff Harbour Authority | 5,400 | 0 | 5,400 |
| **Total: Regeneration Action** | **5,960** | **0** | **5,960** |
| Planning & Regulation Expenditure | 5,096 | 0 | 5,096 |
| **Total: Planning and Regulation Action** | **5,096** | **0** | **5,096** |
| **EXTRACT FROM HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT MEG - TOTAL RESOURCE BUDGET** | **3,891,926** | **267,764** | **4,159,690** |
| *New BEL and Action - Building Safety | | | |

| EXTRACT FROM HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG) | | | |
|---|---|---|---|
| **CAPITAL BUDGET** | | | |
| **BEL** | **2020-21 Final Budget £000s** | **Changes £000s** | **New Plans Draft Budget 2021-22 £000s** |
| Local Govt General Capital Funding | 197,837 | 0 | 197,837 |
| **Total: Local Government General Capital Funding Action** | **197,837** | **0** | **197,837** |
| Fire & Rescue Services | 1,000 | 0 | 1,000 |
| Fire & Rescue Services - Communication Systems | 210 | 0 | 210 |
| Community Fire Safety | 670 | 0 | 670 |
| **Total: Fire and Rescue Services and Resilience Action** | **1,880** | **0** | **1,880** |
| Rapid Response Adaption Programme | 5,660 | 0 | 5,660 |
| **Total: Housing Policy Action** | **5,660** | **0** | **5,660** |
| Integrated Care Fund | 40,000 | 0 | 40,000 |
| **Total: Integrated Care Fund Action** | **40,000** | **0** | **40,000** |
| Major Repairs Allowance and Dowry Gap Funding | 108,000 | 0 | 108,000 |
| **Total: Achieve Quality Housing Action** | **108,000** | **0** | **108,000** |
| Social Housing Grants (SHG) | 163,219 | 36,780 | 199,999 |
| **Total: Increase the Supply and Choice of Affordable Housing Action** | **163,219** | **36,780** | **199,999** |
| Building Safety | **0** | 20,000 | **20,000** |
| **Total: Building Safety** | **0** | **20,000** | **20,000** |
| Regeneration | 41,808 | | 41,808 |
| **Total: Regeneration Action** | **41,808** | **0** | **41,808** |
| **EXTRACT FROM HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT MEG - TOTAL CAPITAL BUDGET** | **558,404** | **56,780** | **615,184** |

## EXTRACT FROM HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)

## FINANCIAL TRANSACTIONS

| BEL | Financail Transactions | 2020-21 Final Budget £000s | Changes £000s | New Plans Draft Budget 2021-22 £000s |
|---|---|---|---|---|
| Financial Inclusion | Credit Unions | -5 | 1,501 | 1,496 |
| **Total: Financial Inclusion and Digital Inclusion Action** | | **-5** | **1,501** | **1,496** |
| Social Housing Grants (SHG) | Building with Modular and Housing Loans | 60,000 | -60,000 | 0 |
| Land for Housing | Land for Housing | 10,000 | -10,000 | 0 |
| **Total: Increase the Supply and Choice of Affordable Housing Action** | | **70,000** | **-70,000** | **0** |
| Building Safety | Building Safety Fund | **0** | 12,000 | 12,000 |
| **Total: Building Safety** | | **0** | **12,000** | **12,000** |
| Help to Buy Wales Fund and Other Schemes | Help to Buy | 68,510 | 3,800 | 72,310 |
| **Action:Increase the Supply and Choice of Market Housing Action** | | **68,510** | **3,800** | **72,310** |
| Integrated Care Fund | Clych Caron Integrated Rescue Centre | 2,000 | -2,000 | 0 |
| **Total: Integrated Care Fund Action** | | **2,000** | **-2,000** | **0** |
| Regeneration | Town Centre Loans | 10,000 | -5,000 | 5,000 |
| **Total: Regeneration Action** | | **10,000** | **-5,000** | **5,000** |
| **EXTRACT FROM HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT MEG - TOTAL FINANCIAL TRANSACTIONS** | | **150,505** | **-59,699** | **90,806** |

| EXTRACT FROM CENTRAL SERVICES AND ADMINISTRATION MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG) | | | |
|---|---|---|---|
| **RESOURCE BUDGET** | | | |
| **BEL** | **2020-21 Final Budget £000s** | **Changes £000s** | **New Plans Draft Budget 2021-22 £000s** |
| Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence | 5,250 | 1,575 | 6,825 |
| **Total: Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Action** | **5,250** | **1,575** | **6,825** |
| Community Cohesion | 1,600 | -1,600 | 0 |
| Equality and Community Cohesion* | 5,766 | 840 | 6,606 |
| **Total: Equality and Inclusion Action** | **7,366** | **-760** | **6,606** |
| Advice Services** | 8,901 | 1,100 | 10,001 |
| **Total: Advocacy Services** | **8,901** | **1,100** | **10,001** |
| Support for the Voluntary Sector and Volunteering | 6,625 | 3,669 | 10,294 |
| **Total: Support for the Voluntary Sector** | **6,625** | **3,669** | **10,294** |
| Community Support Officers | 16,787 | 0 | 16,787 |
| **Total: Community Support Officers** | **16,787** | **0** | **16,787** |
| Female Offending and Youth Justice Blueprints | 575 | 500 | 1,075 |
| **Total: Female Offending and Youth Justice Blueprints** | **575** | **500** | **1,075** |
| Chware Teg | 360 | | 360 |
| **Total: External Bodies Action** | **360** | **0** | **360** |
| **EXTRACT FROM CENTRAL SERVICES AND ADMINISTRATION MEG - TOTAL RESOURCE BUDGET** | **45,864** | **6,084** | **51,948** |
| *Previously 'Equality and Prosperity' | | | |
| **Previously 'Advocacy Services' | | | |

| EXTRACT FROM CENTRAL SERVICES AND ADMINISTRATION MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG) | | | |
|---|---|---|---|
| **CAPITAL BUDGET** | | | |
| **BEL** | **2020-21 Final Budget £000s** | **Changes £000s** | **New Plans Draft Budget 2021-22 £000s** |
| Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence | 2,169 | 0 | 2,169 |
| **Total: Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Action** | **2,169** | **0** | **2,169** |
| Gypsy Traveller Sites | 5,000 | -1,500 | 3,500 |
| **Total: Gypsy Traveller Sites Action** | **5,000** | **-1,500** | **3,500** |
| Community Facilities Programme | 4,838 | | 4,838 |
| **Total: Community Facilities Programme Action** | **4,838** | **0** | **4,838** |
| **EXTRACT FROM CENTRAL SERVICES AND ADMINISTRATION MEG - TOTAL CAPITAL BUDGET** | **12,007** | **-1,500** | **10,507** |

| EXTRACT FROM HOUSING AND CENTRAL SERVICES AND ADMINISTRATION MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **FINANCIAL TRANSACTIONS** | | | | |
| **BEL** | **Financail Transactions** | **2020-21 Final Budget £000s** | **Changes £000s** | **New Plans Draft Budget 2021-22 £000s** |
| Community Facilities Programme | Community Asset Loan Fund | 1,000 | -20 | 980 |
| **Total: Community Facilities Programme Action** | | **1,000** | **-20** | **980** |
| **EXTRACT FROM CENTRAL SERVICES AND ADMINISTRATION MEG - TOTAL FINANCIAL TRANSACTIONS** | | **1,000** | **-20** | **980** |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**21 Ionawr 2021 – tudalen flaen papurau i'w nodi**

| Rhif y papur | Mater | Oddi wrth | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| ELGC(5)-02-21 Papur 2 | Strydoedd diogelach a chydraddoldeb i bobl anabl | Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip – strydoedd diogelach a chydraddoldeb i bobl anabl | I'w nodi |
| ELGC(5)-02-21 Papur 3 | Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) | Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru): Cyfnod 3 | I'w nodi |

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

E-bost: SeneddCymunedau@senedd.cymru
SeneddCommunities@senedd.wales

15 Ionawr 2021

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr 2020 mewn ymateb i ohebiaeth gan unigolyn yn tynnu sylw at rai o'r anawsterau hygyrchedd y mae ei merch yn eu profi fel defnyddiwr cadair olwyn. Mae'n tynnu sylw hefyd at y problemau ehangach y gall materion hygyrchedd eu hachosi, fel llai o annibyniaeth a cholli hyder.

Mae Llywodraeth Cymru am leddfu effeithiau negyddol yr anawsterau hygyrchedd y mae'r ferch ifanc anabl ac eraill yn eu hwynebu. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'n partneriaid i wella bywydau pobl anabl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru, ond mae rhagor y mae rhaid inni ei wneud.

Yn eich llythyr, rydych yn gofyn am ddiweddariad ar sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phleidiau eraill i wella hygyrchedd y seilwaith presennol er mwyn sicrhau cynwysoldeb. Rydych hefyd yn gofyn sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod lleisiau pobl anabl yn cael eu clywed, gan gynnwys ffyrdd o herio penderfyniadau awdurdodau lleol.

Yn ein Fframwaith *Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol*, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu argymhellion sy'n deillio o'r ddeiseb ddiweddar (deiseb wahanol i'r un y cyfeiriwyd ati gan eich gohebydd) i edrych sut y gallai cynllun sgorio hygyrchedd 'Sgoriau ar y Drysau' ar gyfer y sector lletygarwch a'r sector manwerthu gael ei ddatblygu ledled Cymru. Oherwydd y cyfyngiadau Covid presennol, byddai'n anodd ymgysylltu'n ddigonol â safleoedd yn y sectorau hyn ar hyn o bryd. Felly, byddwn yn ailedrych ar y cynigion pan gaiff y cyfyngiadau priodol eu llacio, fel rhan allweddol o'r cynllun adfer. Rydym yn bwriadu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gweithio gydag Anabledd Cymru a Chynghrair Pobl Anabl Pen-y-bont ar Ogwr (a gychwynnodd y ddeiseb 'Sgoriau ar y Drysau') er mwyn gwneud hynny.

Mewn perthynas â datblygiadau newydd, mae ein datganiad polisi cenedlaethol ar gynllunio defnydd tir, Polisi Cynllunio Cymru, yn sicrhau bod y cysyniad o 'greu lleoedd' wrth wraidd polisi cynllunio cenedlaethol.

I greu lleoedd rhaid defnyddio dull integredig o ddatblygu sy'n sicrhau bod pob gwasanaeth sydd ei angen ar gymunedau o fewn cyrraedd iddynt a bod dyluniad y datblygiadau o ansawdd uchel. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn dweud wrth awdurdodau cynllunio lleol y dylent feddwl am ffactorau sy’n ymwneud ag ansawdd a hygyrchedd lleoedd, a'r canlyniadau i bawb.

Mae deddfwriaeth gynllunio yn nodi y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â pholisïau yn y cynllun datblygu lleol sydd wedi’i fabwysiadu. Rwy’n deall fod awdurdodau cynllunio lleol wedi ystyried addasiadau rhesymol a wnaed i gyd-fynd â dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mater i'r awdurdod cynllunio lleol fyddai pennu i ba raddau y mae'r dyletswyddau hynny'n gwrthbwyso gofynion y polisi cynllunio, gan edrych ar bob achos yn unigol. Ni ddylai'r system gynllunio wanhau unrhyw ddyletswyddau statudol ar gydraddoldeb y bydd angen i gyrff cyhoeddus neu sefydliadau eraill gydymffurfio â nhw.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid craidd i’r sefydliad Tai Pawb, sy’n gweithio gydag asiantaethau tai, sefydliadau cydraddoldeb a'r llywodraeth i leihau rhagfarn, anfanteision, tlodi ac achosion o wahaniaethu sy’n gysylltiedig â thai. Un o amcanion strategol Tai Pawb yw helpu i sicrhau tai mwy hygyrch yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar bobl anabl a phobl hŷn. Mae’r gwaith yn cynnwys cynyddu a gwella'r ddarpariaeth o gofrestrau tai hygyrch ac adeiladu cartrefi mwy hygyrch. Mae rhagor o wybodaeth am yr elusen hon ar gael yma: https://www.taipawb.org/cy/amdanom/who-we-are/

Lansiwyd y rhaglen Trawsnewid Trefi ym mis Ionawr 2020 i fynd i'r afael â'r dirywiad yng nghanol trefi a'r gostyngiad yn y galw am fanwerthu ar y stryd fawr. Mae’r rhaglen yn canolbwyntio ar dwf cynaliadwy ein trefi, drwy ymyriadau sy'n cynnwys gwell bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd; ailddefnyddio adeiladau adfeiliedig; cynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael mewn trefi gyda phwyslais ar weithio’n hyblyg a chreu mannau hyblyg i fyw ynddynt; a mynediad at wasanaethau a hamdden. Wrth wneud y gwaith hwn i drawsnewid trefi rydym yn cydweithio ar draws y Llywodraeth er mwyn adeiladu ar fuddsoddiadau sy’n bodoli eisoes, fel gwella trafnidiaeth gyhoeddus a chreu llwybrau teithio llesol gwell.

Mae hygyrchedd i bob dinesydd yn eithriadol o bwysig, ac mae'r gwelliannau a wnaed drwy'r rhaglen hon yn adlewyrchu ein dyhead i sicrhau bod canol trefi yn gynhwysol ac yn gallu cael eu defnyddio gan bawb. Cyhoeddwyd cyllideb o £90 miliwn yn lansiad Trawsnewid Trefi i gefnogi camau a fyddai'n mynd i'r afael â materion penodol yng nghanol trefi, gan gynnwys mynd i'r afael ag eiddo gwag, helpu i gyflwyno seilwaith gwyrdd, gwelliannau i dir y cyhoedd a mabwysiadu’r egwyddor o roi canol trefi yn gyntaf fel polisi Llywodraeth.

Fis Gorffennaf diwethaf fe wnaethom gyhoeddi ein dogfen ganllaw ar gyfer Creu mannau cyhoeddus mwy diogel: coronafeirws. Mae'r canllawiau'n canolbwyntio ar yr egwyddorion dylunio ar gyfer canolfannau trefol a mannau gwyrdd mwy diogel yng nghyd-destun pandemig y coronafeirws. Maent hefyd yn canolbwyntio ar ddarparu toiledau mwy diogel i’r cyhoedd: coronafeirws.

Mae'r canllawiau 'Creu Mannau Cyhoeddus Mwy Diogel' yn pwysleisio'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd ar berchnogion a gweithredwyr mannau cyhoeddus i sicrhau bod polisïau ac arferion yn cefnogi cydraddoldeb a llesiant pobl anabl fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hefyd yn nodi y dylai

sefydliadau, wrth gynllunio mannau cyhoeddus mwy diogel, ystyried materion hygyrchedd yn ofalus, gan gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, ymgynghori â phobl anabl ac ystyried eu hanghenion penodol.

Mae’r pandemig Covid wedi amlygu a gwaethygu rhai o'r anghydraddoldebau a'r anawsterau a wynebir gan bobl anabl yn ein cymunedau, gan gynnwys mynediad i siopau a mannau cyhoeddus. Mae ein Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl wedi cyfarfod sawl gwaith yn ystod y pandemig. Fel Cadeirydd, rwyf wedi gofyn i aelodau'r Fforwm lunio Adroddiad ar Effeithiau Covid-19 ar Anabledd i'n helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn, gan wella’r ffyrdd o herio penderfyniadau cyrff cyhoeddus a gwella hygyrchedd i bobl anabl yn eu cyfleusterau a'u gwasanaethau lleol.

Mae'r adroddiad yn cael ei lunio ar y cyd drwy un o is-grwpiau'r Fforwm i sicrhau bod lleisiau pobl anabl yn cael eu clywed. Mae'r is-grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr anabl sydd ag ystod eang o safbwyntiau a phrofiadau. Mae hefyd yn cynnwys grwpiau buddiant ym maes polisi Anabledd, gan gynnwys Anabledd Cymru, yn ogystal â dadansoddwyr data ac ymchwil gymdeithasol o Lywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad yn crynhoi materion allweddol, gan gynnwys cydraddoldeb o ran mynediad, sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig, gan roi cyfle inni liniaru’r effeithiau. Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn wedyn yn darparu'r dystiolaeth i ddiweddaru'r fframwaith *Gweithredu ar Anabledd* a'r cynllun gweithredu, gan ystyried effeithiau Covid-19.

Bydd yr Adroddiad ar Effeithiau Covid-19 ar Anabledd yn allbwn pwysig gan y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl a bydd fersiwn ddrafft yn cael ei thrafod yng nghyfarfod nesaf y Fforwm ar 27 Ionawr, cyn lledaenu'r wybodaeth yn ehangach.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS**
Y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

# Eitem 4.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

19 Ionawr 2021

Annwyl John

Yn y Pwyllgor Busnes ar 12 Ionawr, nododd y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd y byddai'r ddadl Cyfnod 3 ar y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) yn cael ei gohirio tan 10 Chwefror. Rwy'n ysgrifennu atoch i egluro pam y bu hyn yn angenrheidiol.

Ar 9 Rhagfyr cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig ynghylch taliadau gwasanaeth a godir gan rai cymdeithasau tai a sefydliadau'r trydydd sector ar denantiaethau byrddaliol sicr. Mae'r datganiad wedi'i atodi er hwylustod. Fel y nodir yn y datganiad, mae Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ddiogelu tenantiaid rhag ffioedd annheg. Fodd bynnag, mae wedi cael canlyniad anfwriadol mewn perthynas â thaliadau gwasanaeth a godir ar denantiaethau byrddaliol sicr gan gymdeithasau tai a darparwyr llety â chymorth. Yn fy Natganiad, nodais y bwriad i gyflwyno Offeryn Statudol i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Ers cyhoeddi'r Datganiad, daeth yn amlwg y bydd angen ôl-ddeddfwriaeth i ddatrys y mater yn llawn. Felly, rwyf wedi gofyn i swyddogion edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno gwelliant i Ddeddf 2019 drwy welliant ychwanegol i Fil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru), sydd eisoes yn gwneud diwygiadau eraill i Ddeddf 2019. Bwriad yr oedi byr i Gyfnod 3 yw rhoi amser ar gyfer paratoi'r gwelliant hwnnw.

Rwy'n ddiolchgar am ddealltwriaeth y Pwyllgor a hoffwn bwysleisio bod y camau hyn wedi'u cymryd i sicrhau y gellir datrys y mater yn gyflym.

Byddai fy swyddogion yn hapus i gyfarfod â'r Pwyllgor i ddarparu briff technegol anffurfiol ar y gwelliant hwn, os ystyriwch y byddai hyn yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government